

# engageplus

Yn hyrwyddo gwell  
dealltwriaeth a  
mwynhad o'r  
celfyddydau gweledol

*Opt for Art 1995-2000*

£4.50  
ISSN 1365-9383



9 771365 938000



**engageplus**  
*Opt for Art 1995-2000*  
**Golygydd Gwadd**  
Fiona Godfrey  
**Golygydd Cyhoeddi**  
Karen Raney

Fformat achlysurol newydd yw **engageplus** i gyflwyno deunydd prosiect neu berthnasol arall ochr yn ochr â'r cylchgrawn **engage** sefydledig ('Cynwysoldeb o dan Bwysau' oedd testun y rhifyn diweddaraf, 'engage 11').

Cyhoeddir **engageplus** i **engage** gan olygydd gwadd sy'n ymwneud â'r cynnwys penodol, o dan arweiniad cyffredinol Karen Raney, golygydd y cylchgrawn **engage**. Disgwylir i un rhifyn o **engageplus** ymddangos yn flynyddol a chroesewir awgrymiadau ar gyfer y cynnwys yn y dyfodol. Mae **engage** yn ddiolchgar am gyllid loteri 'Celfyddydau i Bawb' Cyngor Celfyddydau Cymru ac i Sefydliad Baring am ei gefnogaeth i'r rhifyn hwn o **engageplus**.

**Cynnwys:**  
**engage**  
Basement, 108 Old Brompton Road, Llundain SW7 3RA  
Ff +44 (0)20 7244 0110 Ffacs +44 (0)20 7373 7223  
editor@engage.org neu kraney@onetel.net.uk

Corff sydd ag aelodaeth ryngwladol yw **engage** sy'n cynnwys artistiaid, curaduriaid ac addysgwyr yn y DU a thramor. Ei bwrpas yw hyrwyddo gwell dealltwriaeth a mwynhad o'r celfyddydau gweledol. Yn ogystal ag **engageplus**, mae rhaglen **engage** yn cynnwys cylchgrawn **engage**, y cylchlythyr chwarterol, **engagements**, a phrosiectau, cynadleddau a digwyddiadau hyfforddi eraill.

Mae aelodaeth yn dechrau o £27.50 y flwyddyn. Holwch am fanylion pellach. Cefnogir **engage** gan Gyngor Celfyddydau Lloegr, Yr Alban a Chymru, a chan sefydliadau elusennol gan gynnwys Sefydliadau Baring ac Esmée Fairbairn.

Cyhoeddir **engageplus** gan engage, y gymdeithas genedlaethol ar gyfer addysg oriel (rhif elusen gofrestredig 1087471)  
**engage** Basement, 108 Old Brompton Road, Llundain SW7 3RA  
Ff +44 (0)20 7244 0110 Ffacs +44 (0)20 7373 7223  
info@engage.org


Mae'r holl gynnwys yn © hawlfraint **engage** oni nodir fel arall. Ni ellir atgynhyrchu, copïo na throsglwyddo unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn ac eithrio â chaniatâd ysgrifenedig gan y cyhoeddwr neu'n unol ag amodau Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Patentau 1988.

Dosberthir **engageplus** a chylchgrawn **engage** gan  
Cornerhouse Publications  
Ff +44 (0)161 200 1503 Ffacs +44 (0)161 200 1504  
publications@cornerhouse.org  
Derbynnir archebion unigol neu gyfanwerthu  
Am fanylion am ganolfannau manwerthu ffoniwch  
Cornerhouse neu **engage**.

**Dylunio**  
Giant Arc Design +44 (0)1273 325067 studio@giantarc.co.uk







Ysgol: Uwchradd Abergwaun Oriol: Cywaith Cymru Artist: Robert Jakes Blwyddyn: 1997-8 ffoto: Emma Gelliot

# engageplus cynnwys

<b>Peter Evans</b> Rhagair	04
<b>Fiona Godfrey</b> Golygyddol	06
<b>Christopher Naylor</b> <i>Opt for Art</i> - Un o brosiectau <b>engage</b>	08
<b>Cefndir</b>	11
<b>Peter Carter</b> Crynodeb o Ymatebion Disgyblion	15
<b>Maria Wilson</b> Cyweithiau Arbennig - Myfyrdodau Artist	23
<b>Fiona Godfrey, Cath Sherrell &amp; Eleri Wyn Evans</b> Prosiectau <i>Opt for Art</i> Cofiadwy	26
<b>Ffeithiau a Ffigurau</b>	31
<b>Artistiaid</b>	32
<b>Orielau a Chyrff y Celfyddydau</b> Rhestr Gysylltiadau	33
<b>Noddwyr Cyllidol &amp; Aelodau'r Pwyllgor Llywio</b>	35
<b>Manylion Cyfranwyr</b>	36

# Rhagair

**Peter Evans**

*Pennaeth Ysgol Uwchradd  
Cei Connah, Gogledd Cymru  
Cadeirydd, Grŵp Llywio  
Opt for Art*

A finnau'n Bennaeth ysgol Uwchradd sy'n gwasanaethu un o drefi'r hen ddiwydiant dur yng ngogledd Cymru, mi fyddwn yn gofyn imi fy hun yn aml sut y daethwn i ymwneud ag *Opt for Art*. Fodd bynnag, felly y bu, ac rwy'n gwybod fy mod yn ddiolchgar am gael y cyfle i ymwneud â phrosiect o'r fath ac i gael myfyrio dros ei lwyddiannau.

Saith mlynedd yn ôl y daeth criw disberod o unigolion at ei gilydd, yn nerfus braidd, er mwyn ffurfio grŵp llywio *Opt for Art*. Â'n cefndiroedd mewn amrywiaeth o ddisgyblaethau yn y celfyddydau ac addysg, yr hyn yr oeddem yn ei rannu oedd cyd-weledigaeth a brwdfrydedd. Ein gweledigaeth oedd i gael cymaint o bobl ifainc 13 ac 14 oed ag yr oedd modd ledled Cymru i ymwneud â phrofiad esthetaid, creadigol wedi'i leoli yng nghyd-destun yr oriel. Yr amcan oedd eu hannog i ddewis Celf fel opsiwn TGAU.

Ar y pryd, nid oedd ymadroddion megis 'cynwysoldeb cymdeithasol', 'partneriaethau creadigol' a 'dan anfantais diwylliannol' yn cael eu defnyddio, ond yn fuan iawn dyma ni'n sylweddoli pe baem am lwyddo, byddai'n rhaid i'r syniadaeth y tu ôl i'r labeli hyn fod yn sylfaenol i'n gwaith.

Felly, beth yn union a gyflawnwyd gennym? Ai cyfle yn unig oedd *Opt for Art* i bobl ifainc weithio â'u hathrawon, artistiaid ac addysgydd oriel ar brosiect mewn oriel gan ddysgu am yrfa oedd yn y Celfyddydau? Yn fy marn i, bu'n fwy o lawer na hynny.

Credaf fod yr hyn a gyflawnwyd gennym a'r profiadau a ddeilliodd ohono, wedi ychwanegu, yn achos oedolion a phobl ifainc fel ei gilydd, ddimensiwn at ddealltwriaeth o'r celfyddydau gweledol a'r rhai sy'n gweithio ynddynt, a hynny ymhell y tu hwnt i unrhyw beth yr oeddem wedi'i ddisgwyl yn ôl ar ddechrau'r prosiect.

Dangoswyd y gallem gydweithredu'n llwyddiannus; y gallwn weithio â bron 50% o ysgolion Uwchradd Cymru, ac, yn bwysicaf oll, y gallwn gael miloedd o bobl ifainc i ymwneud â phrofiad mor bwysig.

Afraid dweud i fanteision y cydweithrediad fod yn sylweddol iawn. Drwy gydweithio â'i gilydd ar brosiect unigol, rhoddwyd cyfle i addysgwyr oriel, artistiaid, athrawon a disgyblion rannu'r arbenigedd a'r profiad sydd i'w cael yn ein gwahanol sectorau. Bu'r canlyniadau'n tanlinellu'r hen ddywediad bod y cyfan yn fwy na chyfanswm ei gydrannau. Bu hyfforddi â'i gilydd yn cynnig cyfle gwerthfawr i bobl archwilio'r un ddisgyblaeth mewn sectorau gwahanol, i rannu syniadau y tu hwnt i'r prosiect yn ogystal â dysgu mwy am weithio â phlant.

Lle bynnag y bydd syniad yn ennyn cyd-frwdfrydedd, gall hefyd greu rhwystredigaeth pan na fydd pobl eraill y tu allan i'r grŵp yn rhannu'r un brwdfrydedd. Mae ein llwyddiant wrth gael canran mor uchel o ysgolion uwchradd Cymru i ymwneud â'r prosiect, yn rhywbeth y gallwn ymfalchio

ynddo, a hynny'n ddigon cyfiawn. Golygai fod yr hyn roeddem yn ei gynnig yn rhywbeth roedd ysgolion ei eisiau ar ffurf y gallent ei derbyn.

Rhywbeth i'r bobl ifainc oedd *Opt for Art* - yr holl filoedd a fu'n cymryd rhan. Hebddynt doedd dim diben i'r holl ymarferiad. Roeddem yn mynnu y dylai pob person ifanc mewn grŵp blwyddyn gymryd rhan ac nad gwirfoddoli oedd biau hi. A gawsant brofiad da un ac oll? Dwi'n amau, ond, do, dyna a gafodd y rhan fwyaf. Bydd targedau'n aml yn mesur maint rhagor na safon. Yn fy marn i, yn aml y canlyniadau 'meddal' yw'r rhai pwysicaf, a chafwyd llawer iawn o'r rhain drwy'r prosiect, a hynny o safon uchel. Bu canlyniadau gweladwy'r prosiect hwn yn ymdrin ag amrywiaeth eang o ffurfiau ar y celfyddydau gweledol. Cafwyd animeiddio, darnau gosod, ffotograffau a fidio yn ogystal â'r mynegiant 2-ddimeniwn mwy disgwyliadwy. Roedd y prosiect yn cynnig her ac eto'n hygyrch. Roedd y gwaith yn dda ac weithiau'n cynhyrfu'r teimladau. Ni all unrhyw un sydd wedi cael cyfle i weld y fidio a gynhyrchwyd gan Ysgol Arbennig Maes-gwyn, Caerdydd, lai na bod dan deimlad yn sgil gwaith y bobl ifainc hyn. Wrth y pegwn arall y mae gwaith Peter Carter â'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Addysgol, wedi cynnig dadansoddiad meintiol gwerth chweil o ymatebion y bobl ifainc.

Beth wnaethon ni ddysgu? Am un peth, bu siarad â'n gilydd yng nghydestun prosiect unigol yn rhoi ffocws i ni a ddysgodd i ni am y gwahanol gyfyngiadau y byddwn i gyd yn gorfod gweithio oddi tanynt. Mewn cymdeithas sydd fel pe bai'n fwyfwy cystadleuol, dysgasom y gall cydweithrediad esgor ar ganlyniadau cadarnhaol i bawb sy'n cymryd rhan. Hefyd, darganfuom fod gweinyddiaeth gadarn yn hanfodol er mwyn llwyddo, ac mai profiad gwerth chweil yw dysgu ar y cyd â phlant.

Byddai'n anfoesgar peidio â chydabod yr holl gyfraniadau gan aelodau'r pwyllgor llywio. Mae eu parodrwydd i deithio hyd a lled Cymru fach â'i holl gymhlethdodau daearyddol er mwyn rhannu eu harbenigedd a'u creadigrwydd, yn rhywbeth y byddaf yn dragwyddol ddiolchgar amdano. Rhaid hefyd ddiolch i Gyngor Celfyddydau Cymru am eu cyfraniadau sylweddol, yn ariannol ac wrth rannu'u harbenigedd. Rhaid bod Nigel Meager, ein cyfarwyddwr cyntaf ac ysbrydoledig, yn ymhyfrydu yn y canlyniadau o'r hyn a fu, i raddau helaeth, ei syniad yntau. Rwyf yn ddiolchgar i'r holl artistiaid, addysgwyr oriel ac ysgolion a barodd i bethau ddigwydd i bobl ifainc Cymru. Heb gefnogaeth gyson **engage** ni fyddai'r prosiect hwn wedi digwydd.

Yn olaf, a fu popeth yn gadarnhaol ac yn ddi-strach? Am wn i, rhaid mai na ydi'r ateb, ond roedd y rhan fwyaf yn dda a pheth ohono'n wych. Mae angen mwy o brosiectau fel hyn arnom!

## Golygyddol

### *Opt for Art*

Fiona Godfrey

*Cyfarwyddydd Prosiect  
Opt for Art 1999-2000*

Mae'n ddwy flynedd bron er pan ddaeth y prosiect *Opt for Art* i ben yng Nghymru, ac mae'r cyhoeddiad hwn yn darparu cyfle amserol i fyfyrion ynghylch yr hyn a gyflawnwyd gan y prosiect. Wedi'i gyllido gan gynllun grantiau loteri 'Celfyddydau i Bawb' Cyngor Celfyddydau Cymru, llwyddodd y prosiect dros gyfnod o 5 mlynedd i ddod â bron i 20,000 o bobl ifainc i gysylltiad â chelfyddyd ac artistiaid yng nghyd-destun yr oriel, gyda'r bwriad o'u hysbrydoli i ystyried Celf fel opsiwn TGAU. Bu o leiaf ddeunaw o wahanol orielau a chyrrff y celfyddydau, a thros 100 o wahanol ysgolion yn cymryd rhan yn y prosiectau.

Dathliad a rhodd yw'r cyhoeddiad hwn yn sgil prosiect sylweddol, uchel ei barch a hynod lwyddiannus, sydd wedi cael effaith nodedig ar orielau ac ysgolion ledled Cymru. Adlewyrchir ei lwyddiant mewn sylwadau, dadansoddiadau ac achosion enghreifftiol gan athrawon, artistiaid, addysgwyr oriel a disgyblion a fu'n ymwneud â'r prosiect.

Bydd unrhyw un sy'n ystyried ymgymryd â phrosiect mawr, tebyg i hwn yn cael yr wybodaeth gefndirol yn ddefnyddiol. Llwyddodd *Opt for Art* oherwydd bod pob agwedd wedi'i hystyried yn drylwyr drwyddi draw. Fe'i rheolwyd yn effeithlon er budd yr ysgolion a'r orielau, ac o'r herwydd gellid defnyddio yr adnoddau a oedd ar gael yn effeithiol. Mae llwyddiant strwythur ac athroniaeth *Opt for Art* yn cynnig mynegbyst defnyddiol o ran rheoli prosiect sy'n canolbwyntio ar nod creiddiol ond lle mae perchenogaeth yn cael ei datganoli i'r holl bartneriaid.

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd yn darparu cyd-destun lle y gellir cyflwyno canlyniadau darn pwysig o ymchwil werthuso a fu'n cyd-fynd â'r prosiect. Gwnaethpwyd yr ymchwil gan Peter Carter o Brifysgol Cymru yng Nghaerdydd ar y cyd â'r NFER (Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Addysgol). Bu'r ymchwil yn dadansoddi agweddau disgyblion tuag at gelf gan asesu'u profiad o ymweld ag orielau a chymryd rhan mewn prosiectau *Opt for Art*. Casgliad yr ymchwil yw bod *Opt for Art* wedi llwyddo i gyflawni dau o'i brif amcanion - sef, helaethu dealltwriaeth y disgyblion o gelf a'u diddordeb ynddi fel dewis yn y cwricwlwm.

Yn wrthbwynt i'r data meintiol amhrisiadwy a gafwyd drwy'r gwaith ymchwil yma, mae cyfranwyr eraill yn hel meddyliau ar lefel fwy ansoddol.

Mae Maria Wilson yn ysgrifennu'n huawdl o safbwynt artist a fu'n ymwneud â rhedeg un o brosiectau *Opt for Art*. Bu disgyblion o Ysgol Maes-gwyn yng Nghaerdydd yn gweithio â Maria yng Nghanolfan Celfyddydau Chapter, gan greu prosiect fidio rhyfeddol a aeth y tu hwnt i ddisgwyliadau pawb a fu'n cymryd rhan, gan ddangos y pŵer o roi llais i bobl ifainc yng nghyd-destun ymarfer artistig cydweithredol. Bod y darn fidio a grëwyd wedi teithio i Croatia'n ddiweddar mewn arddangosfa deithiol am Gymru, yn tystio i safon uchel y gwaith ac yn brawf bod effaith *Opt for Art* yn dal i fod yn fyw ac yn iach.

Gwahoddwyd swyddogion addysg oriel i wneud sylwadau ar eu prosiect *Opt for Art* mwyaf cofiadwy. Mae'r darnau byrion hyn yn cynnig cipolwg ar ychydig o blith llawer iawn o brosiectau llwyddiannus yr ymgwymerwyd â nhw.

Daw un arwydd allweddol o weithio'n llwyddiannus â'r oedran yma i'r golwg yn thema gyffredinol. Un amheuaeth a nodwyd am y prosiect yn ymchwil Peter Carter yw nad oedd y disgyblion weithiau'n deall pam eu bod yn gwneud prosiect, neu beth roedd y prosiect i fod i'w gyflawni. Mae sawl achos enghreifftiol hefyd yn tynnu sylw at y gwerth o gyflwyno disgyblion i brosiect cyn ei ddechrau, gan roi rhan iddynt yn y prosiect ac ymdeimlad â pherchenogaeth arno. Sut bynnag y llwyddwyd i wneud hyn, boed drwy'r artist, yr oriel neu'r ysgol, byddai'r paratoad yma'n profi'n effeithiol, gan gydnabod y gall pobl ifainc o'r oedran yma, deimlo mwy o barch at y gwaith drwy gael rhyw gipolwg ymlaen llaw ar yr hyn y bydd y prosiect yn ei olygu a pham eu bod yn ei wneud.

Nid yw'r cyhoeddiad hwn ond yn crafu wyneb prosiect arbennig o eang a phellgyrhaeddol a ddaeth i'r amlwg mewn llawer iawn o ffyrdd amrywiol.

# Opt for Art - Un o brosiectau **engage**

Christopher Naylor  
Cyfarwyddwr **engage**

Wedi'i gychwyn yng Nghymru ac er Cymru, *Opt for Art* oedd y cyntaf o gyfres o brosiectau datblygu addysg oriel arloesol i **engage**, y gymdeithas genedlaethol ar gyfer addysg oriel.

Bu *Opt for Art* yn nodedig o ran maint a hyd a lled y prosiectau a gynigiwyd ganddo - dros 90 o gyweithiau ysgol/oriel yn cynnwys bron i 20,000 o ddisgyblion dros 5 oed. Ni all yr adroddiad terfynol hwn gynrychioli'n llwyr yr amrywiaeth arbennig o gyfleoedd a phrofiadau a grëwyd gan *Opt for Art*. Y bwriad yn y cyhoeddiad hwn yw dwyn at ei gilydd sylwadau cyffredinol a safbwyntiau penodol gan rai o'r artistiaid, athrawon ac addysgwyr a fu'n cymryd rhan.

Ni fuasai *Opt for Art* erioed wedi digwydd heblaw am weledigaeth ac egni Nigel Meager, Cyfarwyddwr gwreiddiol *Opt for Art*. Ef a ddechreuodd y prosiect peilot, gan hel at ei gilydd grŵp llywio egniol ac ymroddgar. Ef a ysbardunodd y cais am gyllid loteri, a chydag ymroddiad mawr, bu'n rheoli'r prosiect am y rhan fwyaf o'i gyfnod. Rhaid diolch yn fawr hefyd i Gyngor Celfyddydau Cymru am y Grant Loteri Celfyddyd i Bawb a alluogodd yn y pen draw gynnal *Opt for Art* ledled Cymru am dair blynedd. Rhaid diolch hefyd i Sefydliad Calouste Gulbenkian, Sefydliad Paul Hamlyn a'r Sefydliad ar gyfer Chwaraeon a'r Celfyddydau a fu, ynghyd â Chyngor Celfyddydau Cymru, yn cyllido'r prosiect peilot.

Sefydlwyd **engage** ym 1988 (gelwid yn NAGE tan 1996) gan dderbyn cefnogaeth greiddiol hanfodol gan Gyngor Celfyddydau Prydain Fawr. Ei amcan oedd cefnogi'r rheini sy'n cyflwyno addysg a rhaglenni dehongli oddi mewn i orielau celf. Mae'r gymdeithas wedi tyfu'n gyflym dros y degawd diwethaf, ac erbyn hyn yn un o'r cyrff aelodaeth broffesiynol mwyaf yn y celfyddydau gweledol yn y DU. Ymhlith yr aelodaeth y mae artistiaid, athrawon, academyddion a churaduriaid, yn ogystal â'r rheini sydd wrthi'n cyflwyno rhaglenni addysg yn uniongyrchol. Ar hyn o bryd y mae **engage** yn ceisio datblygu rhaglenni newydd yn ne-ddwyrain Lloegr, Cymru a'r Alban ac yn meithrin swyddogaeth ryngwladol.



Ysgol: Ysgol Gyfun Treorchy Oriol: Canolfan Celfyddydau Sain Dunwyd Artist: Adrian Metcalf Blwyddyn: 1998-9

Erbyn hyn y mae rhaglen **engage** yn ymgorffori tair ardal gysylltiedig:

#### Datblygu Proffesiynol

Mae **engage** yn darparu fforwm unigryw ar gyfer datblygu proffesiynol, drwy'r cylchgrawn **engagereview**, cynhadledd flynyddol **engage**, a rhaglenni hyfforddi newydd, yn ganolog ac yn grwpiau rhanbarthol **engage**.

#### Adfocatiaeth

Mae **engage** yn gweithio ag adrannau allweddol ac asiantaethau'r llywodraeth, er enghraifft, cyfraniad i arolwg strategol diweddar Cyngor Celfyddydau Cymru, gan gyfrannu at y Fforwm Amgueddfeydd Ewropeaidd ac ymuno a thasglu 'Rhoi Pŵer i'r Gymuned Ddysgu' ar wahoddiad yr Adran Ddiwylliant yn Lloegr.

#### Prosiectau

Mae **engage** yn ceisio hyrwyddo ymarfer da mewn rhaglenni mynediad ac addysg oriel gan fwydo'i waith datblygu proffesiynol ac adfocatiaeth - drwy brosiectau megis Mis yr Amgueddfeydd ac Oriolau, *Opt for Art*, *encompass* ac *envision*.

Mae'r gwaith prosiect yma wedi dod yn bortffolio pwysig, sy'n anelu at:

- alluogi miloedd o oedolion a phobl ifainc i elwa o brofiadau artistiaid, gwaith celf ac orielau, ,
- darparu cyfleoedd datblygu proffesiynol i'r rheini sy'n cyflwyno rhaglenni addysg oriel, ,
- datblygu a chryfhau rhwydweithiau rhwng y rheini

sy'n gweithio ym maes addysg oriel,

- gosod safonau rhagoriaeth a modelau proffil ar gyfer ymarfer da.
- diffinio'r hyn a olygir gan addysg oriel yn y DU.

Bu *Opt for Art* yn brosiect pwysig i **engage** ar sawl lefel. Does dim amheuaeth fod llawer iawn o bobl ifainc - yn ogystal ag artistiaid, athrawon a staff orielau - wedi cael profiadau ysbrydoledig a chofiadwy o ganlyniad i *Opt for Art*. I'r graddau yr aeth llawer iawn o'r rhai a gymerodd ran ymlaen i wneud yn arbennig o dda mewn Celf TGAU a Safon Uwch, gellir honni'n ddiffuant i *Opt for Art* newid bywydau. Bu hefyd yn dangos gwerth dwyn at ei gilydd griw eang o bartneriaid oriel ac ysgol mewn prosiect a chanddo bwrpas ac athroniaeth ar y cyd, ac a ddarparodd beth wmbredd o dystiolaeth am y gwerth i bobl ifainc o ymweld ag orielau a gweithio ag artistiaid. Yn Lloegr, gan dderbyn cyllid eto gan Sefydliad Clouste Gulbenkian a Sefydliad Paul Hamlyn, datblygwyd sawl mân brosiect peilot seiliedig ar *Opt for Art* a fu'n meithrin gallu a phartneriaethau lleol newydd. Arweiniodd hyn at gynllunio ar gyfer y prosiect *envision* nesaf a ddisgrifir isod.

Bu ail brosiect, *encompass*, yn deillio o lwyddiant *Opt for Art* yng Nghymru, gyda sawl gwahaniaeth allweddol, yn fwyaf arbennig, gweithio ag amrywiaeth wahanol o gyfranogwyr. Bu'r prosiect yn ymwneud â phlant ysgol gynradd a'u teuluoedd, gan annog rhieni i ymweld â'r oriel yng nghwmni eu plant. Bu hefyd yn ymwneud â'r rhai sy'n gadael yr ysgol, gan eu hannog i aros mewn cysylltiad ag orielau fel rhan o'u bywydau fel oedolion. Gan ymestyn athroniaeth benagored *Opt for Art*, bu *encompass* wedyn yn annog swyddogion addysg orielau i archwilio gwahanol ddulliau a oedd yn briodol i'w cyfranogwyr a'u cyd-destun. Gan adeiladu ar ddull Peter Carter wrth werthuso effaith *Opt for Art*, comisiynwyd Eilean Hooper-Greenhill o Brifysgol Caerlŷr i werthuso *encompass*, gan helpu addysgwyr oriel eraill i ddysgu gwersi am y ffordd orau i weithio â'r cynulleidfaoedd hyn, yn ogystal â'r hyn na ddylid ei wneud.

Y prosiect **engage** diweddaraf i'w datblygu yw *envision*. Mae hwn yn adeiladu ymhellach ar y model a ddatblygwyd drwy *Opt for Art* ac *encompass*, gan weithio ar y cyd i ddwyn at ei gilydd artistiaid ac addysgwyr a chan greu profiadau cyffrous a chofiadwy. Fodd bynnag, ceir dau wahaniaeth allweddol. Yn gyntaf, mae *envision* yn targedu'r rheini sydd mewn perygl neu sydd allan o'r ysgol, y rhai nad yw ymwneud â'r celfyddydau'n rhywbeth a gymerir yn ganiataol ganddynt. Felly y mae *envision* yn mynd ati mewn ffordd lawer iawn mwy tymor-hir wrth geisio ennyn hyder grŵp arbennig o bobl ifainc, er mwyn sicrhau manteision parhaus. Yn ail, nid yw system gyllido'r loteri a ddarparodd arian sylweddol ar gyfer prosiectau arloesol yn ganolog, yn bodoli bellach - felly mae'n rhaid i *envision* fynd rhagddo drwy wneud ceisiadau llai a hynny'n lleol, ac felly mae wedi dechrau drwy gyllido Cydlynnydd i roi hwb cychwynnol i'r fenter.

Yn y cyfamser yng Nghymru, sicrhawyd grant yn ddiweddar gan Gyngor Celfyddydau Cymru i gefnogi swydd dymor-byr i barhau i ddatblygu gweithgarwch a phrosiectau yng Nghymru. Erbyn hyn y mae Angela Rogers, Cydlynnydd Datblygu **engage** Cymru, yn gweithio'n agos â Grŵp Datblygu **engage** Cymru i ddatblygu cynlluniau ar gyfer prosiect newydd sy'n derbyn arian gan y Loteri yng Nghymru. Bydd hyn yn adeiladu ar *Opt for Art*, gan weithio efallai â grŵp targed gwahanol ond gan gynnal llawer iawn o'r elfennau allweddol a gyfrannodd at lwyddiant mawr *Opt for Art*.

Dangosodd *Opt for Art* y gall celf fod yn bwysig i amrywiaeth eang o bobl ifainc - nid yn unig y rheini a nodwyd yn barod fel rhai sy'n 'dda hefo celf' o bell ffordd. Creodd *Opt for Art* ysfa a gweledigaeth ynglŷn â phrosiectau o'r fath. Mae egni a chreadigrwydd swyddogion addysg oriel ar draws Cymru'n gwarantu sut siâp bynnag a fydd ar brosiect nesaf **engage** Cymru, bydd yn sicr o ddarparu profiadau pwysig a chofiadwy i bobl ifainc - profiad sy'n gweddwedid bywydau, a phrofiad na fyddent fel arall wedi cael y cyfle i'w fwynhau.

# Cefndir

**Fiona Godfrey**

*Cyfarwyddyd Prosiect Opt for Art 1999 - 2000*

## Y Cysyniad

Cysyniad syml oedd *Opt for Art*. Tros gyfnod o bum mlynedd a thrwy gyfanswm o dros gant o brosiectau, daeth *Opt for Art* ag artistiaid â disgyblion Cyfnod Allweddol Tri o Flynyddoedd 8 a 9 (pedair ar ddeg a phymtheg oed) at ei gilydd er mwyn archwilio celf gyda'i gilydd yng nghyd-destun yr oriel.

Yn benodol, amcanion y prosiect oedd:

- *Cysylltu orielau ag ysgolion Uwchradd*

Ceisiodd *Opt for Art* hyrwyddo cysylltiadau effeithlon rhwng orielau celf ac ysgolion Uwchradd, gan annog athrawon i gydnabod gwerth ymweld ag orielau.

- *Cynnig profiad celf ysbrydoledig*

Cynlluniwyd prosiectau *Opt for Art* gyda'r bwriad o ysbrydoli disgyblion drwy weithio ag amrediad o artistiaid ac arddangosfeydd. Yn bwysig ddigon, ceisiodd ehangu canfyddiad y disgyblion o gelf o'r modelau cyfyngedig braidd a gynigiwyd ar adegau gan yr ysgolion.

- *Dylanwadu ar ddisgyblion i ystyried celf fel opsiwn TGAU*

Ceisiodd y prosiect yn gwbl agored i ddylanwadu ar benderfyniadau pobl ifainc o ran dewis Celf ym Mlwyddyn 10. Roedd hyn yn cynnwys dosbarthu taflenni i bob disgybl a fu'n cymryd rhan gan hyrwyddo manteision dewis Celf TGAU.

- *Archwilio gwerth gweithio ag artistiaid ac orielau yng Nghyfnod Allweddol Tri*

Yng Nghyfnod Allweddol Pedwar, pan fydd opsiynau TGAU wedi'u dewis, ystyrir ymweliadau ag orielau a gweithio ag artistiaid yn elfen hanfodol o waith y cwricwlwm. Yn ôl tystiolaeth o'r orielau, bydd yr ymweliadau'n digwydd yn llai aml o lawer yng Nghyfnod Allweddol Tri. Ceisiodd y prosiect ddangos sut y gall orielau ac artistiaid gefnogi addysgu Celf o safon uchel ym mhob oedran o addysg ysgol Uwchradd.

## Sut y bu *Opt for Art* yn llwyddiannus

Hyfrydwch *Opt for Art* oedd ei symlwydd a'i hyblygrwydd. Bu'r prosiect bob amser wedi'i seilio ar 'gyffyrddiad ysgafn' o ran rheolaeth ganolog. Gallodd orielau, ysgolion ac artistiaid ddehongli'r cysyniad *Opt for Art* yn ddilyffethair mewn amrywiaeth eang o ffyrdd, fel bo'n briodol i bob sefyllfa unigol. O ganlyniad, bu

prosiectau'n archwilio amrywiaeth eang o ymarfer celf, gan gynnwys gwaith o Gymru, y DU a thramor, o'r hanesyddol i'r cyfoes, y traddodiadol, i'r hynod gysyniadol.

Yn yr un modd, bu prosiectau unigol yn amrywio yn y ffordd y caent eu strwythuro a'u rheoli. Mewn rhai achosion, digwyddodd yr holl waith yn yr oriel; mewn mannau eraill, dilynwyd ymweliadau ag orielau gan breswyladau yn yr ysgol. Mewn ychydig achosion, daeth yr oriel i'r ysgol, ac mewn rhai eraill, digwyddiad rhithwir oedd y prosiect, a ddigwyddodd ar y we yn unig.


Bu rhai o'r prosiectau yn seiliedig iawn ar brosesau, gan ganolbwyntio'n drwm ar ddehongli'r gwaith celf. Roedd gan eraill ddimensiwn ymarferol cryf a'r canlyniad oedd cerfluniau, darnau tecstilau a pheintiadau sy'n darparu cynhyogaeth i'r dyfodol i'r ysgolion dan sylw.

Yn aml, bu'r prosiectau'n gofyn i'r disgyblion weithio ar y cyd, a hynny yn yr awyr agored yn archwilio'u milltir sgwâr, gan wneud defnydd o leoedd yn yr oriel er mwyn cael rhyddid o ran maint a graddfa nad oedd ar gael iddynt yn aml yn eu hysgolion. Dysgodd y disgyblion sgiliau cysyniadol a thechnegau newydd. Bu'r prosiectau'n ymestyn profiadau'r disgyblion o ffurfiau celf megis celf ddigidol, gwydr lliw, gwneud printiau, tecstilau, weldio, ffotograffiaeth a fidio. Datblygodd y prosiectau sgiliau o ran meddwl am y broses greadigol, dehongli, cysyniadau ac ystyr. Amrywiai'r canlyniadau o waith fidio a ffotograffiaeth, peintiadau, lluniadau, cerameg a thecstilau i gerfluniau parhaol ar raddfa fawr.

Yn yr un modd ag yr arweiniodd yr athroniaeth-cyffyrddiad-ysgafn at ragor o amrywiaeth o ran dulliau a phrofiadau, gellir priodoli llwyddiant y prosiect hefyd i rai egwyddorion cyfathrebu cadarn a chliir. Gyda'i gilydd, bu'r egwyddorion hyn yn cynnig ethos a unodd y myrdd prosiectau amrywiol hyn.

- *Dull cynhwysol*

Ceisiodd y prosiect gyrraedd pob disgybl yn yr ysgolion a gymerodd ran, beth bynnag bo'u gallu neu'u diddordeb mewn Celf, a heb ystyried anabled,dd.



Ysgol: Afon Taf Oriol: YGBC :Yr Asiantaeth Adfywio a Chelfyddydau Artistiaid: Nigel Talbot / Carlos Pinnati Blwyddyn: 1998-9 Ffoto: Nigel Talbot / Carlos Pinnati

tarddiad ethnig nac ymddygiad. Un amod i'r ysgolion a'r orielau ymwneud â'r prosiect oedd y dylai'r holl ddisgyblion mewn grŵp blwyddyn unigol gymryd rhan. Gyda niferoedd grwpiau blwyddyn gymaint â 400, dyma dipyn o her i lawer iawn o'r prosiectau. Serch hynny, fel y tystia hanesion unigol, yn aml disgyblion na fyddai hwyrach wedi gwirfoddoli am brosiect neu wedi'u cynnwys yn awtomatig, oedd y rhai a elwodd fwyaf o'u hymwneud â nhw. Er mwyn sicrhau bod yr amod yma o fewn cyrraedd, roedd grantiau ychwanegol ar gael i ddiwallu anghenion disgyblion a chanddynt anghenion arbennig.

- *Cydnabod anghenion cludiant*

Bu'r prosiect yn cydnabod anawsterau'r ysgol wledig wrth ymweld ag orielau. Yn aml, byddai ysgolion yn teithio am ymhell dros awr i gyrraedd eu horiel *Opt for Art*. Ar gyfer disgyblion yn yr ysgolion hyn, digwyddiad



Ysgol: Fitzalan Oriol: Canolfan y Celfyddydau Gweledol Artist: Catrin Jones  
Blwyddyn: 1997-8 ffoto: Fiona Godfrey

prin yw ymweliadau oriel, ac, yn wir, roedd llawer iawn o'r disgyblion a gymerodd ran erioed wedi ymweld ag oriel o'r blaen. Roedd cynlluniau cyllidebol yn gallu cynnwys costau cludiant i helpu goresgyn y problemau ymarferol hyn.

- *Dogfennaeth a dosbarthiad uchel eu safon*  
I gydnabod cyfoeth y data gwerthfawr y gellid ei dynnu o brosiect mor eang, ymgorfforwyd elfen ymchwil gref yn y prosiect. Comisynwyd Peter Carter o Brifysgol Cymru yng Nghaerdydd i weithio â'r NFER ar gynhyrchu a dadansoddi holiadur a gydlynai wybodaeth am ganfyddiadau disgyblion am gelf a'u hymateb i'r prosiect y buont yn ymwneud ag ef..

Anogwyd orielau i ymgorffori yn eu cyllidebau gostau dogfennu prosiectau. Deallwyd na fyddai rhandaliadau terfynol y grantiau'n cael eu talu oni chyflwynid

adroddiad a delweddau ar derfyn y prosiect. Sefydlwyd gwefan a ddarparodd ddull o ddangos pob prosiect *Opt for Art* a bu natur sydyn y cyfrwng yn briodol iawn i'r oedran oherwydd bod ysgolion yn gallu hygyrchu delweddau o'u prosiectau a'u gwaith ar amrantiad..

- *Cyfathrebu effeithiol*

Cyfathrebwyd yn rheolaidd ag ysgolion ac orielau. Yn ychwanegol, rhoddwyd i ddisgyblion deimlad o gysylltiad un-wrth-un â'r prosiect. Postiwyd cyfres o daflenni at yr holl ddisgyblion gan eu cyflwyno i'r prosiect a chan ddarparu gwybodaeth am yrfaeodd mewn Celf a Dylunio. Hefyd, rhoddwyd i bob disgybl gerdyn post gwag y gallent ei lenwi fel y dymunent a'i ddychwelyd. Cynhwyswyd yr holl gardiau post fel rhan o oriel y wefan, gan roi presenoldeb unigol o fewn i'r prosiect.

- *Datblygu rhwydweithiau*

Ceisiodd *Opt for Art* i fod yn brosiect cynhwysfawr i Gymru, gan ddatblygu rhwydweithiau o ran addysgwyr oriel, artistiaid ac athrawon celf. Cefnogwyd hyn drwy gynnal diwrnod hyfforddi unigol ym mhob blwyddyn o'r prosiect cyn i'r cynllunio ddechrau'n llawn. Gwasanaethodd *Opt for Art* i ddod â Swyddogion Addysg o orielau ar draws Cymru at ei gilydd, a'r rheini'n anhygyrch yn aml, ar gyfer cyd-bwrpas. Nid oes unrhyw amheuaeth na fu i orielau Cymru glosio at ei gilydd ac iddynt fod mewn cysylltiad agosach â'i gilydd o ganlyniad uniongyrchol i'r prosiect.

- *Darparu hyfforddiant*

Ymgorfforodd *Opt for Art* ddimensiwn hyfforddi cryf i artistiaid, athrawon ac addysgwyr oriel. Wedi'u huno gan bwrpas cyffredin, rhoddwyd cyfle i wahanol sectorau ddod at ei gilydd i archwilio'r un ddisgyblaeth. Bu'r hyfforddiant yma'n meithrin dealltwriaeth well o'r gwahanol agendâu a blaenoriaethau arbennig unigolion sy'n gweithio mewn cyd-destunau gwahanol iawn, a pharch tuag atynt.

- *Dull creadigol, hyblyg*

Cynlluniwyd y prosiect gydag ymwybyddiaeth o'r annisgwyl a natur amrywiol gweithgarwch diwylliannol. Ceisiodd hyrwyddo egni creadigol a pherchenogaeth leol ar brosiectau, gan osgoi gorchmynion a sefydledid syniadau..

- *Strwythurau trefniadol llyfn ac effeithlon*  
Cynlluniwyd y mecanweithiau gweinyddol a fu'n ategu *Opt for Art* yn ofalus er mwyn creu cyn lleied o ddryswch a gwaith gweinyddol â phosibl. Fel hyn, dosbarthwyd y rhan fwyaf o'r cyllid yng ngrantiau'r prosiect er budd uniongyrchol i'r ysgolion a'r disgyblion.

### **Rheoli Opt for Art**

Rheolwyd y prosiect yn glir, yn gyson ac yn syml.

Bob tymor yr haf, gwahoddid yr ysgolion i fynegi'u diddordeb mewn cymryd rhan yn *Opt for Art*. O'r rhestr a ddeuai i law, byddai'r ysgolion yn cael eu cyfateb yn ddaearyddol ag oriel. Yn aml, gwahoddid yr orielau mwyaf i ymgymryd â dau neu dri o brosiectau. Yn gynnar yn nhymor yr hydref, anfonid at yr ysgolion detholedig (deg ar hugain bob blwyddyn ar gyfartaledd) becyn gwybodaeth. Byddai hwn yn cynnwys amodau cymryd rhan, athroniaeth a chefnidir y prosiect a hysbysiad am ddiwyddiad hyfforddi a ddisgwyliid iddynt ei fynychu.

Ar yr un pryd, hysbysid yr orielau pa ysgolion oedd eu partneriaid. Byddai swyddogion addysg yr orielau'n cysylltu ag ysgolion gan gwrdd ag athrawon i baratoi braslun o'u prosiect. Erbyn mis Tachwedd, gofynnid i'r addysgydd oriel (neu'r ysgol yn achlysurol) gyflwyno ffurflen seml yn amlinellu'r cais a'r gyllideb ar gyfer eu prosiect. Byddai cynigion yn cael eu seilio ar ddisgwyl derbyn grant o £1000 leiafswm (ynghyd â chyfraniad o £200 cyfatebol gan yr ysgol a chyfraniadau mewn nwyddau a gwasanaethau gan yr oriel). Amrywiai holl gostau'r prosiect o £1500 i £4000 gyda grantiau o rhwng £1000 a £1500 ar gael. Gellid hawlio cyllid ychwanegol i gefnogi cynnwys disgyblion a chanddynt anghenion arbennig.

Cyfarfu is-bwyllgor grŵp llywio *Opt for Art* bob mis Tachwedd i asesu portffolio'r ceisiadau a dyrannu grantiau. Ni throwyd yr un cais ar gyfer prosiect i lawr. Yn y mwyafrif o achosion, rhoddwyd y grant llawn y gofynnwyd amdano i'r prosiectau. Yna, byddai'r ysgolion, orielau ac artistiaid yn dechrau o ddifri ar y gwaith o gynllunio'r prosiectau.

Byddai'r prosiectau naill ai'n digwydd yn nhymor y gwanwyn gyda disgyblion Blwyddyn 9, neu yn nhymor yr haf â Blwyddyn 8. Byddai'r grantiau'n cael eu tynnu i lawr fesul dau neu dri cham. Gwnaed y taliadau cyntaf cyn i'r prosiectau ddechrau. Byddai'r taliadau olaf yn cael eu rhyddhau ar dderbyn adroddiadau diwedd y flwyddyn ar y prosiectau.

I gyd-fynd â'r prosiectau, anfonid i'r holl ysgolion a oedd yn cymryd rhan daflenni i'w dosbarthu i'r disgyblion dan sylw. Byddai'r taflenni'n hyrwyddo'r gwerth o ddewis Celf fel opsiwn TGAU. Byddai'r holiaduron ymchwil hefyd yn cael eu hanfon, i'w cwblhau gan yr holl ddisgyblion. Roedd yr holl ddeunydd printiedig ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Cyhoeddwyd crynodebau'r holl brosiectau ar wefan *Opt for Art* cyn gynted ag y byddent ar gael.

### **Adeiladu ar brofiad Opt for Art**

Profodd *Opt for Art* y gall cysylltiad uniongyrchol â chelf, orielau ac artistiaid fod o fudd i ddisgyblion sy'n amrywio o ran gallu a diddordeb, Gan gadw hyn mewn cof, mae prosiect newydd yn cael ei gynllunio ar hyn o bryd i Gymru a fydd yn adeiladu ar lwyddiant *Opt for Art* ac a fydd yn cadw llawer iawn o'i nodweddion llwyddiannus. Gan ymestyn y cysylltiadau llwyddiannus a feithriniwyd â nifer fawr o ysgolion, bydd y prosiect yn mynd i'r afael â mater sy'n cynnig mwy o her, sef sut i feithrin prosiectau partneriaeth â grwpiau y tu allan i addysg ffurfiol. Llwyddodd *Opt for Art* i ennyn diddordeb ac egni ymhlith llawer iawn o bobl ifainc a oedd wedi diflasu. Trowyd eu disgwyliadau am gelf ac orielau benywaered gan eu profiadau. O *Opt for Art* y mae diddordeb wedi tyfu mewn ymestyn y math yma o brofiadau i'r 10% o bobl ifainc yng Nghymru sy'n diflannu o gofnodion addysg a chyflogaeth ar ôl iddynt ymadael â'r ysgol yn un ar bymtheg oed (y ffigur cyfredol yn Lloegr yw 3%). Gan fod *Opt for Art* wedi targedu nifer mor fawr o bobl ifainc, yn aml bu cryn rwystredigaeth oherwydd yr amser cyswllt cyfyngedig. O'r herwydd y mae diddordeb hefyd mewn prosiect a fyddai'n caniatáu perthynas fwy tymor-hir ac i bartneriaethau mwy cynaladwy gael eu sefydlu.

# Crynodeb o Ymatebion y Disgyblion

**Peter Carter**

*Uwch Ddarlithydd (Addysg Celf a Dylunio) Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd*

Yn dilyn cynllun peilot dwy-flynedd, bu i brosiect *Opt for Art* redeg am dair blynedd o hydref 1997 drwodd i haf 2000 ac roedd ganddo ddau amcan canolog. Y cyntaf oedd rhoi i ddisgyblion ym mhen uchaf Cyfnod Allweddol Tri (tair a phedair ar ddeg oed) brofiadau celf cadarnhaol, perthnasol ac ysbrydoledig drwy ymwneud â phrosiectau ar y cyd sy'n cysylltu ysgolion ag orielau ag artistiaid. Yr ail amcan oedd i godi proffil a statws Celf mewn ysgolion er mwyn dylanwadu'n well ar ddewis eu pynciau dewisol yng nghwricwlwm Cyfnod Allweddol Pedwar (i'r rhan fwyaf o ddisgyblion, eu pynciau TGAU). Er mwyn gwerthuso llwyddiant y prosiect, gofynnwyd i'r disgyblion a oedd yn cymryd rhan, gwblhau holiaduron. Cyflwyno'r papur hwn ganlyniadau'r holiaduron gan drafod eu harwyddocâd. Bydd yr adran gyntaf yn ymwneud â llunio'r holiadur a dilynir hyn gan esboniad o sail y dystiolaeth. Cyflwynir y canlyniadau'n ôl pedair prif adran yr holiadur.

1. agweddau'r disgyblion tuag at gelf yn gyffredinol
2. eu hymateb i'r gelf a welwyd yn ystod y prosiect
3. eu hymateb i'r gweithgareddau gweithdai a drefnwyd ar eu cyfer
4. yr effaith y cafodd y prosiect arnynt.

Bydd y papur yn gorffen gyda rhai myfyrdodau ar ddilysrwydd a dibynadwyedd yr astudiaeth a chrynodeb o'r prif ganlyniadau. Mae'r rhain yn dangos, o ganlyniad i gymryd rhan mewn *Opt for Art*, i ddau brif amcan y prosiect gael eu cyflawni. I fwyafrif helaeth y disgyblion, helaethwyd eu profiad o gelf a'u parch tuag at y pwnc.

## **Cynllun yr Ymchwil**

Penderfynwyd ar y dechrau y dylai'r astudiaeth hon ganolbwyntio ar y disgyblion a gymerodd ran, gan mai nhw oedd y rhai y bwriadwyd iddynt dderbyn ac elwa o'r profiad, ac mai mabwysiadu fformat holiadur fyddai prif offeryn yr ymchwil. Er i farn pobl eraill a oedd yn cynryd rhan (athrawon, addysgwyr, artistiaid) gael ei hystyried yn bwysig, ystyriwyd canfyddiadau'r disgyblion o'u profiadau yn ganolog i lwyddiant cyffredinol y prosiect. Dewiswyd fformat yr holiadur oherwydd ei addasrwydd. Y gwir amdani yw na fyddai'n ymarferol i ddarganfod barn y rhai a gymerodd ran drwy gyfrwng cyfweiliadau neu grwpiau trafod. Ystyriwyd yr anafteision o ddefnyddio

holiaduron (nifer gyfyngedig yn cael eu dychwelyd, ymateb annibynadwy neu anonest) ac ymdriniwyd â nhw, er enghraifft, drwy gynllun y ffurflen a'r dulliau dosbarthu a chasglu. Yn y pen draw, teimlid bod manteision defnyddio'r dull hwn yn drech na rhai o'i ddiffygion.

Dylanwadwyd ar gynllun yr holiadur gan y profiad wrth werthuso prosiect peilot *Opt for Art*. Gwerthuswyd prosiectau peilot gan ddefnyddio holiadur a oedd yn cynnwys cymysgfa o gwestiynau cyffredinol a chwestiynau a oedd yn ymwneud yn benodol â phrosiectau unigol. Defnyddiwyd Graddfa Likert i ymateb i'r holl gwestiynau. Hefyd, gwahoddwyd i'r rhai oedd yn cymryd rhan gyflwyno sylwadau ychwanegol yn eu geiriau eu hunain ar gefn y daflen. Mae'n amlwg y byddai datganiadau cyffredinol yn fwy ymarferol o ran gwerthuso'r prosiect cyfan. Byddai ymatebion ar Raddfa Likert yn addas ar gyfer dadansoddiad ystadegol ac felly, dyna oedd yn cael ei ffafrio, ond teimlwyd ei bod yn bwysig cynnig i'r rhai a oedd yn cymryd rhan ryw fath o gyfle i wneud sylwadau personol. Hefyd, teimlwyd bod angen medru cyfateb sypiau o ymatebion â'r prosiectau perthnasol.

Ar y dechrau, cynhaliwyd trafodaethau am y cynllun a chyfansoddiad y ffurflen o fewn i grŵp llywio *Opt for Art*. Y canlyniad oedd consensws am y pedwar prif ddi-ddordeb: agweddau tuag at gelf, ymatebion i'r gelf a oedd yn cael ei harddangos yn yr orielau, ymatebion i weithgareddau gweithdai, ac effaith y prosiect. Ceisiwyd cyngor gan y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Addysg (NER) a oedd yn galluogi penderfyniad ar gyfansoddiad terfynol y ffurflen. Seiliwyd hyn ar bedair prif adran, pob un wedi'i rhannu'n bum datganiad yn gofyn am ymatebion ar raddfeydd Likert, a thri chwestiwn agored. Dyluniwyd yr holiaduron gan ddylunyd graffeg proffesiynol er mwyn eu gwneud yn fwy deniadol a diddorol i'r disgyblion. Rhifwyd pob holiadur yn unigol er mwyn ei gwneud hi'n haws eu hadnabod mewn perthynas â phrosiectau penodol. Dosbarthwyd digon o holiaduron i ysgolion i alluogi'r holl ddisgyblion cyfranogol i gael y cyfle i lenwi un. Gofynnwyd am eu cwblhau a'u cyflwyno ar ddiwedd pob prosiect. Dosbarthwyd fersiynau Cymraeg fel bo'n briodol. Dadansoddwyd yr ymatebion yn ystadegol gan yr NFER a dychwelyd y canlyniadau i'r grŵp llywio.

### **Tystiolaeth**


Cynlluniwyd y prosiect *Opt for Art* i alluogi deg ysgol ar hugain i gymryd rhan ym mhob un o'r tair blynedd. Dosbarthwyd gwybodaeth am y prosiect peilot i'r holl ysgolion sy'n derbyn cyllid o'r wladwriaeth yng Nghymru gan eu gwahodd i gymryd rhan. Cyrhaeddwyd y targedau mewn dwy allan o dair blynedd, ond yn yr ail flwyddyn, bu'n rhaid i ddwy o ysgolion y prosiect optio allan. Bu 88 o ysgolion yn cymryd rhan (tua 30% o ysgolion Uwchradd Cymru). Roeddent yn cynrychioli pob rhanbarth ac awdurdod lleol ac amrywiaeth o wahano! ysgolion Cymru: ysgolion cyfrwng-Cymraeg, gramadeg, arbennig a chyfun. Ym mhob ysgol bu holl garfan blwyddyn wyth neu naw yn cymryd rhan ac o ganlyniad dros y tair blynedd, bu 12,688 o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn prosiectau *Opt for Art*.

Gofynnwyd i bob ysgol gyflwyno gwerthusiadau. Mewn rhai achosion, derbyniwyd ymatebion gan yr holl gyfranogwyr, sampl o ymatebion a gyflwynwyd gan rai ysgolion, a gwrthododd rhai eraill ymateb o gwbl. Yn ystod y ddwy flynedd gyntaf, prociwyd ac atgoffwyd ysgolion i gyflwyno'u gwerthusiadau, ac fe wnaeth oddeutu dwy ran o dair ohonynt ym mhob blwyddyn. Yn y flwyddyn olaf, golygai newidiadau yng ngweinyddiaeth y prosiect a'r staffio na fu unrhyw brocio nac atgoffa a gostyngodd yr ymateb i 27%. Yn gyffredinol, o blith yr 88 o ysgolion, bu 48 yn cyflwyno gwerthusiadau a oedd yn cynrychioli cymhareb yn eu dychwelyd o 55%. Bu mwy o amrywiaeth fesul blwyddyn yn yr ymatebion a dderbyniwyd gan unigolion a gymerodd ran. Yn y flwyddyn gyntaf, derbyniwyd gwerthusiad gan 31% o'r disgyblion a gymerodd ran. Ystyriwyd y nifer yma'n siomedig gan aelodau'r grŵp llywio a gwnaethpwyd mwy o ymdrech yn y flwyddyn ganlyniol i gael y ffurflenni gwerthuso'n ôl. O ganlyniad, yn yr ail flwyddyn, cafwyd ymatebion gan 67% o'r disgyblion a gymerodd ran. Yn anffodus, ni pharhaodd y gymhareb yma yn y flwyddyn olaf, yn rhannol oherwydd nad oedd y staff gweinyddol ar gael i gysylltu ag ysgolion ac ni chafwyd ond 18%. Serch hynny, yr ymateb cyffredinol gan ddisgyblion unigol oedd 34% sy'n cynrychioli 4,926 o'r rhai a gymerodd ran. Er bod y cymarebau ymateb yn siomedig, sicrhawyd cynsail tystiolaeth sylweddol a chynrychioladol a alluogai nodi tueddiadau a thynnu casgliadau tebygol y gellid eu cyfiawnhau.

## Agweddau tuag at Gelf

Seilir y canlyniadau a geir yma ar ymatebion disgyblion i Adran A yr holiadur lle y gofynnwyd iddynt "Beth yw'ch barn am gelf?" Dangosir yr ymatebion i'r pum datganiad cyntaf yn Ffigur 1.

BETH YW'CH BARN AM GELF?  
(% YMATEBION, N = 4278)



Gellir gweld bod yr ymatebion at ei gilydd yn ffafriol, ond ceir rhai amrywiadau diddorol. Er bod dros 70% yn mwynhau gwersi Celf yn yr ysgol, dim ond 33% oedd yn ystyried Celf i fod yn bwnc pwysig gyda 40% arall yn datgan nad oeddent yn siŵr am ei phwysigrwydd. Ystyria ychydig o dan draean o'r disgyblion eu hunain i fod yn dda neu'n dda iawn mewn Celf. Mae canran tebyg heb fod yn siŵr sut i raddoli'u gallu, gydag ychydig dros draean yn cytuno neu'n cytuno'n gryf nad oeddent yn dda mewn Celf. Unwaith eto, dangosodd yr ymateb i A4 dueddiad bach tuag at agweddau mwy cadarnhaol yn ystod y tair blynedd. Bu'r tueddiad hwn yn ailddwydd

yn yr ymatebion i'r datganiad A4. Cynyddodd canran y disgyblion a ymatebodd yn gadarnhaol yn gyson, er bod patrwm llai amlwg i'r ymatebion negyddol a niwtral. Mae'r ymatebion i A5 yn galonogol gan ddangos fawr o amrywiaeth dros gwrs y prosiect. Roedd dros 40% yn credu y bydd cymwysterau Celf yn eu helpu i gael swydd. Ychydig yn llai oedd o'r farn nad oeddent yn siŵr ac roedd llai nag 20% yn cytuno na fyddai cymwysterau Celf yn eu helpu i gael swydd.

**A6** IA oes unrhyw beth y gallech ei ddweud wrthym am y ffordd rydych yn teimlo am Gelf?

**A7** Pa fath o weithgareddau rydych yn eu hoffi orau?

**A8** Pa weithgareddau y byddwch yn eu cael yn anodd neu'n ddiflas?

Cymharol ychydig oedd yr ymatebion i'r cwestiynau agored, A6, A7 ac A8, ac i'r rheini yn y tair adran arall, a bu i gymhareb yr ymateb syrthio ym mhob un o'r tair blynedd. Ymddengys fod llawer iawn o ddisgyblion yn rhoi llai o amser i gwblhau'r ffurflenni gwerthuso, gan ganolbwyntio'n gynyddol ar y datganiadau lle'r oedd gofyn am gylchu rhif yn unig yn hytrach na'r cwestiynau lle'r oedd angen ymateb mwy ystyrlon. Serch hynny, bu 30% o'r rhai a ymatebodd yn fodlon datgan eu bod yn mwynhau celf ac yn ei chael yn hwyl, a bu mwyafrif llethol yr ymatebion i A6 yn dangos agweddau cadarnhaol. Dim ond lleiafrif bychan gyfaddefodd nad oeddent yn hoffi Celf ac yn cael y pwnc yn anodd neu'n ei ystyried i fod yn fawr o ddefnydd iddynt yn eu bywydau yn y dyfodol. Mewn ymateb i A7, bu llawer iawn o ddisgyblion yn datgan ei bod yn well ganddynt beintio (tua 27%), lluniadu a chrochenwaith (oddeutu 18% yr un). Soniwyd hefyd am fraslunio ac argraffu ond gan lai na 5% ym mhob achos. Yn yr ymatebion i A8, lluniadu a pheintio sy'n dod i'r amlwg eto gyda 10% yn mynegi safbwyntiau negyddol am beintio a 18% yn ymddangos fel pe baent yn drwglicio lluniadu. Ymhlith y gweithgareddau eraill a ystyriwyd yn anodd neu'n ddiflas roedd gweithgareddau traddodiadol megis portreadau (7%) a bywyd llonydd (3%). Dywedodd 5% wrthym na chawsant ddim byd yn anodd nac yn ddiflas, ac yn ddiddorol ddigon, ni soniwyd bron dim am brosesau tri-dimensiwn yn yr ymatebion A8. Ystyriwyd yn siomedig y ffaith na chafwyd ymateb gan tua thri chwarter o'r rhai a gymerodd ran i'r cwestiynau agored hyn, sy'n golygu

bod yn rhaid ystyried yr ymatebion i A6, A7 ac A8 yn llai cynrychioladol..

Yn gyffredinol, dengys yr ymatebion i Adran A fod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau Celf yn yr ysgol a bod ganddynt agweddau cadarnhaol tuag at y pwnc. Cred nifer llai, ond mwyafrif o hyd, fod y pwnc yn berthnasol i'w bywydau yn y dyfodol. Mae'r canlyniadau hyn yn rhoi llinell waelod i fesur y canlyniadau olynol, sy'n canolbwyntio'n fwy ar y prosiectau eu hunain, yn ei herbyn.


### Profiad yr Oriol

Gofynnwyd i'r disgyblion yn Adran B yr holiadur ymateb i'r cwestiwn "Beth yw'ch barn am y gelf a welsoch?" Nodir yr ymatebion i'r pum datganiad cyntaf yn Ffig. 2.

Ym mhob un o'r prosiectau unigol, cyflwynwyd y disgyblion i'r arddangosfeydd a chael eu tywys o'u cwmpas gan addysgwyr, a hynny'n aml wrth gael eu hebrwng gan artistiaid ac athrawon. Mae'r ymatebion felly yn ymwneud â'r profiad cyfan. Bu'r gwaith a welwyd, wrth gwrs, yn amrywio'n sylweddol ond bu cyfran helaeth ohono'n gelf, crefft neu ddylunio cyfoes, ac, mewn llawer iawn o achosion, bu'r artist a gynhyrchodd y gwaith yn bresennol i helpu dehongli ac egluro'r gwaith.

Bu'r disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol iawn i'r datganiad cyntaf, gyda bron i 70% ohonynt yn cytuno eu bod yn hoffi'r gwaith a welsant, a dim ond 10% yn cofnodi unrhyw ddiffyg hoffter. Bu'r ymateb i'r ail ddatganiad, yn ymwneud â'u diddordeb yn y gwaith yma'n debyg, ond ychydig llai cadarnhaol, a chyda mwy o ddisgyblion yn dewis peidio dod allan o blaid nac yn erbyn. Nodwyd ymateb llai brwdfrydig i'r datganiad nesaf (B3). Cytunodd dros 40% yr hoffent ymweld â'r oriel (neu'r safle) eto, ond, nid oedd bron i 25% am ddychwelyd ac roedd 30% yn ansicr. Nodwyd ymatebion tebyg yn y prosiect peilot gan ddangos peth gwrthwynebiad dyfnach hyd yn oed i ymweld ag orielau. Dangosir llwyddiant cyfrwng profiad yr oriel yn yr ymateb i B4. Teimlad dros eu hanner oedd eu bod wedi deall mwy am gelf, tra mai 15% yn unig oedd yn anghytuno â'r datganiad hwn. Yn ystod y prosiect, roedd cynnydd cyson yn yr

BETH YW'CH BARN AM Y GELF A WELSOCH?  
(% YMATEBION, N = 4061)



ymateb positif i B4 a gostyngiad cyfateb yn y negyddol. Bu'r ymateb niwtral yn parhau'n weddol gyson tua 28%. Mae hyn yn tueddu i awgrymu bod staff orielau yn dod i gyfathrebu'n fwy medrus â disgyblion yn yr oedran yma wrth i'r prosiect fynd rhagddo. Mewn ymateb i B5, dangosodd mwyafrif llethol y disgyblion (dros ddwy ran o dair) eu bod wedi cael gwybod mwy am sut roedd artistiaid yn gweithio, ac eto gellid gweld tueddiad tuag at ymatebion cadarnhaol mewn blynyddoedd olynol.

- B6 A ellwch ddweud unrhyw beth arall wrthym am y gelf a welsoch yn ystod prosiect *Opt for Art?* (A oeddech yn meddwl ei bod yn dda?)
- B7 A oeddech i fod i'w hoffi neu a oedd hi i fod i beri i chi feddwl?
- B8 A yw'ch barn am gelf gyfoes wedi newid, ac os felly, sut?

Mewn ymateb i'r cwestiwn agored, B6, bu'r ymatebion a gafwyd gan y rhai a gymerodd ran yn y mwyafrif o achosion (dros 60%) yn gadarnhaol, gyda'r disgyblion

yn dangos eu bod yn hoffi'r gwaith, yn weddol, ei fod yn "iawn" neu'n gwneud rhyw sylw cadarnhaol arall. Roedd llai nag 20% o'r ymatebion a dderbyniwyd yn negyddol, er bod ychydig ddisgyblion yn cynnig rhesymau penodol i archwilio eu hymateb. Teimlodd y rhan fwyaf o'r disgyblion a ymatebodd i B7 ym mhob blwyddyn, tua 35% yn gyffredinol, mai diben y gelf oedd i beri i chi feddwl, o'u cymharu â 7% a feddyliodd fod rhywun i fod i'w hoffi. Teimlai 13% arall y dylai gyflawni'r ddau bwrpas. Mewn ymateb i B8, dywedodd 7% wrthym eu bod bellach yn gwybod neu'n deall mwy am gelf gyfoes a nododd 6% arall eu bod bellach yn ei mwynhau'n well. Dywedodd 30 y cant wrthym nad oedd eu barn wedi newid, ond heb ddweud a oedd y farn honno'n gadarnhaol neu'n negyddol.


At ei gilydd, awgryma'r ymatebion i adran B adwaith ffafrinol o ran y rhai a gymerodd ran. Bu mwy o ymatebion cadarnhaol na rhai negyddol i'r pum datganiad. Serch hynny, Dengys y lleiafrif sylweddol, bron i 30%, a ddeuwiodd aros yn niwtral wrth ymateb i B3 a B4, lefel y gwrthwynebiad i'r ymweld ag orielau celf a'r diffyg o ran deall celf gyfoes.

### Gweithgareddau'r Gweithdai

Yn Adran C o'r holiadur, gofynnwyd i ddisgyblion beth oedd eu barn am y gweithgareddau celf a drefnwyd fel rhan o'u profiad cyffredinol. Pwrpas y gweithgareddau hyn oedd rhoi cyfleoedd am waith ymarferol i helaethu eu dealltwriaeth o gelf. Ym mwyafrif yr achosion, cynhaliwyd y gweithgareddau hyn o fewn i'r orielau, er, mewn rhai achosion, gwnaethpwyd y gwaith yn yr ysgolion yn syth ar ôl yr ymweliad. Cynlluniwyd a dyfeisiwyd holl weithgareddau'r gweithdai gan y staff dan sylw, ac roeddent yn golygu cydweithio agos rhwng addysgwyr oriel, artistiaid ac athrawon. Mae'r ymateb i adran C wedi'u dadansoddi mewn perthynas â phob prosiect lleol unigol er mwyn nodi cryfderau a diffygion sy'n benodol i'r cyd-destun yn fwy hwylus ar gyfer cynllunio i'r dyfodol. I ddiben y papur hwn, fodd bynnag, cyflwynir ymatebion cyffredinol. Cyflwynir y rhieni sy'n ymwneud â'r pum datganiad cyntaf ar ffurf graffigol yn Ffig. 3

Cafodd y rhan fwyaf o'r disgyblion fod gweithgareddau'r gweithdai wedi'u trefnu'n dda a dyma fel y bu yn yr holl brosiectau. Ni chafwyd ymateb

A WNAETHOCH FWYNHAU GWEITHGAREDDAU'R GWEITHDAI? (% YMATEBION, N = 4029)



- C1 Roedd gweithgareddau'r gweithdai wedi'u trefnu'n dda
- C2 Roeddwn i'n deall beth roeddwn i fod i'w wneud
- C3 Rwy'n deall pam y gofynnwyd imi wneud o
- C4 Mi wnes i waith na fydda i'n arfer ei wneud yn yr ysgol
- C5 Roedd gen i ddigon o amser i orffen fy ngwaith

negyddol yn bennaf gan yr un o'r prosiectau. Cafodd y rhan fwyaf fod y cyfarwyddiadau'n glir ac wedi deall yr hyn roeddent i'w wneud. Mae'r ymatebion i C1 a C2 yn hynod debyg. Yn y ddau achos roedd yna gynnydd graddol yn yr adwaith cadarnhaol drwy gydol y prosiect a gostyngiad yn y rhai negyddol. Yn gyffredinol roedd yr ymatebion oddeutu 70% yn bositif, 7% yn negyddol gyda'r gweddill yn niwtral. Roedd y disgyblion yn llai clir ynghylch pwrpas eu gwaith. Syrthiodd yr ymatebion cadarnhaol i ychydig dros 50%, tra cynyddodd yr adwaith negyddol i bron 12%. Roedd bron i draean o'r holl ddisgyblion heb fod yn siŵr beth oedd pwrpas eu gwaith. Mae hyn yn awgrymu methiant i ryw raddau ar ran arweinyddion y gweithdai, i gyfleu'r nodau dysgu = methiant nad yw, efallai, yn anghyffredin mewn meysydd addysg eraill. Fodd bynnag, cafwyd peth gwelliant o ran canran yr ymatebion cadarnhaol ym mhob un o'r tair blynedd a gwelliant nodedig yn y maes yma o'i gymharu â'r prosiect peilot. Yn sicr, roedd y disgyblion yn teimlo iddynt wneud gwaith na fyddent yn

arfer â'i wneud yn yr ysgol, gyda dwy ran o dair yn ymateb yn gadarnhaol i C4. Unwaith yn rhagor, bu hyn yn gwella'n gyson drwy gydol y prosiect. Bu amser, fodd bynnag, yn broblem o hyd. Teimlodd bron i draean o'r rhai ymatebodd na chawsant ddigon o amser i orffen eu gwaith, tra, er syndod, roedd dros 15% yn ansicr a gawsant ddigon o amser ai peidio. Gellid casglu nad oeddent yn siŵr a oedd eu gwaith wedi'i orffen.

- C6** A gawsoch chi'r gwaith yn hawdd neu'n anodd?  
**C7** A oeddech yn hapus a'r hyn a wnaethoch?  
**C8** A gawsoch chi help gan arweinyddion y gweithdai?


Bu'r ymateb i'r cwestiynau agored yn gadarnhaol yn bennaf. Yn C6, roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion a gynigiodd sylwadau'n dangos iddynt gael y gwaith yn hawdd, yn hawdd mewn mannau neu'n ddiddorol, gyda 10% yn unig yn nodi iddynt ei gael yn anodd. Roedd dros 45% yn hapus â'u gwaith o'i gymharu â 15% a fynegodd eu hanfodlonrwydd â'r canlyniadau neu a oedd heb ddigon o amser. Cafodd y rhan fwyaf fod y staff yn help iddynt (oddeutu 55%) a dim ond 5% fu'n cwyno na fu'r staff yn fawr o help iddynt.

Unwaith yn rhagor, roedd mwyafrif ymatebion y disgyblion yn gadarnhaol. Mewn gwirionedd, ceir arwyddion fod y disgyblion wedi ymateb yn fwy ffafriol i'r gweithgareddau ymarferol nag i'r profiad mwy goddefol yn yr orielau. Pwyntiau allweddol a ddaw i'r amlwg o'r adran hon yw pwysigrwydd cyfleu gwybodaeth am ganlyniadau dysgu, i'r disgyblion fod yn glir am bwrpas y gweithgareddau a'r angen am gynllunio er mwyn sicrhau bod gan ddisgyblion amser i gwblhau eu gwaith. Nid oes fawr o amheuaeth, fodd bynnag, fod y profiadau oriel hyn yn llwyddiannus ac yn hwyliog i'r mwyafrif o'r disgyblion a ymatebodd i'r holiadur.

### Effaith

Bu Adran D yn ymwneud ag effeithiau'r prosiect *Opt for Art* a'r graddau y gallai fod wedi effeithio ar ganfyddiadau a bwriadau'r disgyblion. Yn ei hanfod, gofynnai i ddisgyblion a fyddent yn debyg o ddewis Celf yn y dewisiadau opsiynol o'u blaenau. Cyflwynir y canlyniadau yn Ffigur 4.

A FYDDWCH YN DEWIS CELF?  
 (% YMATEBION, N = 4135)



- **D1** Dwi'n gwneud y cwrs TGAU ym mlynnyddoedd 10 ac 11
- **D2** Bydda i'n gwneud y cwrs TGAU ym mlynnyddoedd 10 ac 11
- **D3** Mae'r prosiect wedi newid fy nheimpladau ynghylch celf er gwell
- **D4** Mae celf yn ddefnyddiol ar gyfer llawer iawn o yrfaeodd a swyddi
- **D5** Mae gwybod am gelf yn helpu pobl i fwynhau'u bywydau'n well

Awgryma'r ymateb i D1 fod traean o'r disgyblion yn gobeithio cymryd Celf TGAU. Roedd 40% yn gobeithio peidio â chymryd y pwnc ac roedd chwarter heb fod yn sicr. Canolbwyntiodd D2 yn fwy ar fwriadau penodol yn hytrach na gobeithio. Wrth ymateb iddo, dim ond 26% a ddywedodd wrthym y byddent yn astudio Celf (ffigur sy'n agos at y gwir gymhareb sy'n astudio'r pwnc). Fel hyn fel pe bai'n awgrymu y byddai rhagor yn hoffi astudio Celf nag sy'n gwneud hynny mewn gwirionedd - oherwydd, rhagdybir, y gwrthdaro diddordebau rhwng gwahanol bynciau a natur cwricwlwm Cyfnod Allweddol Pedwar sy'n gofyn i ddisgyblion wneud dewisiadau eithaf anodd. Mewn ymateb i D3, nododd dros 43% i'r prosiect *Opt for Art* newid eu teimladau am gelf er gwell. Dyma, hwyrach, un o'r arwyddion unigol cryfaf o lwyddiant y prosiect. Yn D4, gofynnwyd i ddisgyblion ymateb i'r datganiad "Mae

celf yn ddefnyddiol ar gyfer llawer iawn o yrfaedd a swyddi". Bu bron eu hanner yn cytuno neu'n anghytuno'n gryf â hyn (44.8%). Os bydd rhywun yn cymharu'r ymateb hwn yn erbyn yr ymateb i gwestiwn A4, lle'r oedd deugain y cant yn credu y byddai cymwysterau Celf yn eu helpu i gael swydd, gellir nodi cynnydd sylweddol. Mae hyn yn cynnig arwydd pellach o lwyddiant y prosiect. Mewn ymateb i D5, credai tri deg saith y cant fod gwybod am gelf yn helpu pobl i fwynhau'u bywydau'n fwy, ychydig yn fwy na'r rheini nad oedd yn sicr ac yn sylweddol fwy na'r rheini sy'n anghytuno â'r datganiad. Unwaith yn rhagor y mae hyn yn dynodi ymateb cadarnhaol, sy'n ategu'r deongliadau a sylwadau blaenorol.

- D6 A allech ddweud wrthym a ydych am ddal ati i gymryd Celf ym Mlynnyddoedd 10 ac 11 neu a ydych am roi'r gorau iddi, a pham?
- D7 A yw'r prosiect *Opt for Art* wedi gwneud unrhyw wahaniaeth i chi?
- D8 A hoffech gymryd Celf ond heb fedru gwneud hynny? Os felly - pam?

Mae'r ymatebion i'r cwestiynau agored yn gyson a'r deongliadau hyn. Tuedda'r wybodaeth a gynigiwyd mewn perthynas â D6 i gadarnhau bwriadau a ddangoswyd mewn ymateb i D3, ond datgelir sawl cipolwg pellach. Mewn ymateb i D7, bu llawer o ddisgyblion yn dangos bod y prosiect wedi gwneud gwahaniaeth iddynt, eu bod bellach yn deall neu'n gwybod mwy am gelf neu eu bod yn ei mwynhau'n fwy'n awr (32%). Dywedodd tri deg saith y cant nad oedd wedi gwneud unrhyw wahaniaeth iddynt a gwrthododd gweddill y rhai gymerodd ran i wneud sylw. Ni chafwyd sylwadau negyddol gan yr un disgybl i awgrymu, er enghraifft, fod y prosiect wedi'u troi'n erbyn celf. Mae'r ymatebion i D8 braidd yn amhendant. Gofynnwyd i ddisgyblion a hoffent astudio Celf, ond iddynt gael eu hatal rhag gwneud hynny. Ateb syml dau ar hugain y cant oedd "Na" (nad yw, o angenrheidrwydd) yn golygu na fyddant yn cymryd Celf). Dywedodd un ar ddeg y cant wrthym yr hoffent gymryd Celf a dywedodd chwech y cant ymhellach eu bod yn gallu gwneud hynny. Dywedodd wyth y cant fod yn well ganddynt bynciau eraill, dywedodd naw y cant nad oedd am

gymryd Celf a dywedodd 4% ymhellach nad oeddent yn gwybod. Byddai disgyblion ym Mlwyddyn 8 wedi derbyn llawer iawn llai o wybodaeth am ddewisiadau opsiynau na'r rheini ym Mlwyddyn 9. Wrth edrych yn ôl, gellir awgrymu y gallai'r cwestiynau hyn fod wedi'u llunio'n well ac o ganlyniad, gallai'r canlyniadau fod yn haws eu dehongli.

Yn Adran D, bu llawer iawn mwy o ddisgyblion yn dewis ymatebion niwtral nag mewn unrhyw un o'r adrannau blaenorol. Roedd y cwestiynau a'r datganiadau fan hyn yn gofyn mwy i'r graddau eu bod yn gofyn i ddisgyblion fwrw golwg i'r dyfodol yn hytrach nag ymateb i brofiad diweddar. Roedd hyn yn amlwg yn fwy anodd i ddisgyblion ym Mlwyddyn 8. Serch hynny, dengys yr ymatebion a dderbyniwyd yn yr adran hon (ac yn enwedig i D4 a D7), yn glir fod ymwneud ag *Opt for Art*, i'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn brofiad gwerth chweil a buddiol.

#### Casgliad

Er mai braidd yn siomedig oedd y gymhareb ymateb yn gyffredinol, mae cronfa'r dystiolaeth yn sylweddol, ac mae digon o ddata wedi dod i law i alluogi dod i gasgliadau cyfiawn. Adlewyrcha ystod y dystiolaeth amrywiaeth y gwahanol ysgolion a gymerodd ran yn ogystal â thaeiniad daearyddol y prosiectau. Golygai hyd y prosiect y gellid monitro perfformiad yn flynyddol a gwelwyd cysondeb nodedig ym mantolen yr ymatebion bob blwyddyn. Gyda'i gilydd, awgryma'r ffactorau hyn gryn ddbynadwyedd. Gellir asesu dilysrwydd yr offeryn ymchwil yn ôl y graddau y mae wedi galluogi gwneud dyfarniadau am i ba raddau y cafwyd llwyddiant wrth gyflawni amcanion canolog y prosiect. Tra mai Adran A sy'n cynnig gwybodaeth gyd-destunol am agweddau disgyblion, mae Adrannau B ac C yn darparu gwybodaeth bwysig am ansawdd profiadau'r disgyblion yn yr oriel, gan ymdrin felly â'r amcan cyntaf. Darparodd Adran D wybodaeth am effeithiau'r prosiect a'i ddylanwad ar ddisgyblion, gan alluogi ymdrin â'r ail amcan. Cydnabyddir fod diffygion i'w cael yng nghynllun yr holiadur. Yn wir, mewn llawer o achosion, nodwyd y rhain yn ystod y prosiect. Teimlwyd, fodd bynnag, mai annoeth fyddai diwygio'r holiadur oherwydd byddai hyn yn ei gwneud yn fwy anodd i gymharu tystiolaeth o wahanol flynyddoedd.

Nid oes fawr o amheuaeth bod yr amcan cyntaf, darparu profiadau cadarnhaol, perthnasol ac ysbrydoledig, wedi'i gyflawni i'r rhan fwyaf o ddisgyblion a gymerodd ran. Mae pwysau'r dystiolaeth o Adrannau B ac C yn cefnogi'r honiad yma'n glir. Ymddengys hefyd i'r ail amcan gael ei gyflawni. Dengys ymatebion yn Adran D, yn enwedig i ddatganiad D4 a chwestiwn D7 i lawer iawn o ddisgyblion roedd statws a phroffil celf yn cael eu gwella. Anodd yw asesu i ba raddau y mae hyn wedi cyfrannu at gynnydd yn y niferoedd sy'n dewis celf. Gall fod llawer iawn o ffactorau allanol, megis newidiadau staff, addasiadau

i'r cwricwlwm a chynlluniau cenedlaethol a lleol, wedi cael dylanwad hefyd. Mae'n ymddangos fel pe bai'n debyg, fodd bynnag, fod y prosiect *Opt for Art* wedi cyfrannu'n sylweddol at wella statws Celf oddi mewn i gwricwlwm yr ysgolion Uwchradd ac wedi cael dylanwad positif ar ganfyddiadau'r disgyblion o'r pwnc. Fel y cyfryw, gellir cydnabod *Opt for Art* fel menter effeithiol a llwyddiannus.

#### Cyfeiriadau

<sup>1</sup> Meager, Nigel (gol.) (1996) *Opt for Art*. Blackwood, Pensord Press



Ysgol: Uwchradd Rhymini Oriol / Artistiaid: Artistiaid Tre Bute Blwyddyn: 1998-9 ffoto: Artistiaid Tre Bute

## Cyweithiau Arbennig - Myfyrdodau Artist

**Maria Wilson**

*Artist Fidio*

Fel artist, 1998 oedd y flwyddyn y crisialodd pethau i mi, pryd y gwnes i lunio llawer iawn o'r ymarferiadau gwaith yr wyf yn dal i'w defnyddio hyd heddiw. Ar ddechrau 1998, mi gymerais ran mewn sioe o'r enw *Ffresh* yng Nghaerdydd, gyda darn fidio o'r enw *Jam On It* a arweiniodd at gael fy ngwahodd gan Angela Rogers, a oedd, ar y pryd yn Weithreg Fynediad yng Nghanolfan Celfyddydau Chapter, i weithio â hi ar fy mhrosiect *Opt for Art* cyntaf. Ar gyfer y prosiect *Opt*, roeddem eisiau sicrhau'r un lefel o uchelgais, o ran cysyniadau a deunyddiau, ag y byddwn yn ei chyflwyno i'm gwaith stiwdio. Yr hyn oedd yn mynd â'm bryd oedd pethau'n ymwneud â'r cof a hunaniaeth a'r ffordd y mae'r rhain yn cael eu ffurfio gan iaith sy'n cael ei strwythuro drwy awdurdod a gormes. Y cynllun oedd ailadrodd proses *Jam On It* cyn belled ag y bo modd. Golygai hyn gymryd stori - a honno â rhyw gyddestun a pherthnasedd sylfaenol i'r rhai sy'n eu hadrodd, gan geisio ei chyflwyno'n fyrfyr i'r camera. Gochelwyd rhag sgriptiau ac ymarferiadau, gan ddibynnu ar y cof yn unig, mewn ymgais i osgoi rhai o'r ofnau a gormes mewnol sy'n bodoli mewn meddyliau a ystyrir ymlaen llaw. Ffilmwyd yr holl ganlyniadau ac ni chaniatawyd unrhyw sensoriaeth.

Yn ystod yr wythnosau ar ôl hynny, bûm yn disgwyl i'm syniadau gael eu cadarnhau yn ogystal â'u herio, ond doeddwn i ddim wedi rhagweld i ba raddau y byddent yn cael eu helaethu a'u trawsffurfio y tu hwnt i'm canfyddiadau gwreiddiol. Dyma'r adeg y darganfûm faint dwi'n mwynhau gweithio ar y cyd â phobl eraill. Erbyn hyn, mi fydda i'n aml yn gweithio â grwpiau sy'n cael eu hystyried yn rhai sydd ar yr ymylon. Grwpiau lle mae hunanfynegiant yn hanfodol ac eto'n anodd mewn rhyw ffordd p'un ai a yw'r gormes yn dod o'r tu mewn neu'r tu allan.

Yr ysgol a gynigiwyd i Angela a fi oedd Ysgol Arbennig Maes-gwyn yn Aberdâr, ac er nad oeddwn i erioed wedi gweithio ym maes anghenion arbennig o'r blaen, dyma ni'n derbyn y cynnig. Roedd Charline Evans a oedd yn addysgu Celf a Sgiliau TG yn yr ysgol yn falch bod '*Opt for Art*' wedi cydnabod ei chais ac roedd wrth ei bodd hefyd fod gen i ddisgwyliadau mor uchel ynglŷn â'r hyn y gellid ei gyflawni gan y disgyblion. Yn y gorffennol, roedd hi wedi sylwi ar ryw amharodrwydd o ran pobl o'r tu allan wrth weithio â



Ysgol: Maes-gwyn Oriol: Canolfan Celfyddydau Chapter Artist: Maria Wilson Blwyddyn: 1997-8 ffotos: Charlene Evans

phlant anghenion arbennig. Fel y bu pethau, y fi oedd yr un lwcus, er yn fy niniweidrwydd am y broses o gyweithio, bu'n gryn amser cyn imi sylweddol pa mor lwcus yn union. Mae gweithio â disgyblion anghenion arbennig yn gofyn am ddull positif a meddwl agored, ond fe dalwyd y pwyth ar ei ganfed drwy agwedd Charline, Val Jones, y pennaeth a'r disgyblion eu hunain. Bu darparu bws mini, ystafell dawel neu rywffaint o hyblygrwydd yn amserlen yr ysgol i gyd yn werthfawr tu hwnt, ond yr un mor bwysig oedd cefnogaeth mecanweithiau'r bobl ifainc, a greodd sefyllfa lle nad oedd yna le i ofn nac amheuaeth, lle mai ymddiriedaeth a sicrwydd a deyrnasai.

Cyn i ni ddechrau'r preswiliad, daeth y disgyblion i'r arddangosfa *Ffresh* i weld fy ngwaith i ynghyd ag artistiaid eraill. Bu eu hymateb yn peri syndod ac yn aml yn dreiddgar, gan ddangos rhyw fath o ymwneud ffisegol na welir yn aml mewn orielau. Dyma un bachgen yn gorwedd ar ei gefn i edrych i fyny ar bishyn o gym wedi'i gnoi ar fwrdd gwydr, a merch yn cipial mewn braw a phleser, wrth ollwng cyfarpar llaw y ffôn a oedd newydd ddweud wrthi ei fod yn ei charu. Adroddodd bachgen arall blot fy fidio wrthyf, gan newid y manylion tra'n dal y naws yn llwyr. Bu Charline yn eu hannog i siarad, a dalion nhw ati gyda'r ddeialog am yr hyn a welsent yr holl ffordd yn ôl i Aberdâr, gan fyrlymu drosodd i swyddfa'r pennaeth hyd yn oed. Dyma ni'n dewis Brwydr

Hirwaun yn fan cychwyn oherwydd bod y stori wedi'i gwreiddio yn y tirwedd o gwmpas. Roedd yn darddiad i hanes a chwedlau lleol a hefyd i lawer iawn o enwau lleoedd y fro fel Maes-gwyn - maes y baneri gwynion. Dyma'r fan lle'r oedd y disgyblion yn byw, yn siopa, yn mynd i'r ysgol, yn chwarae â'u ffrindiau ac yn delio â chystadleuaeth a gelyniaeth. Gyda'n gilydd eisteddom gan wrando ar hanes brwydr am rym rhwng y ddau diwywysog. Credid mai teg a da oedd y naill, a'r llall yn filain ac yn ddrwg. Ar ôl hyn, ceisiodd pob disgybl ailadrodd y chwedl o flaen y camera. Pan fyddent yn anghofio, gofynnwn iddynt lenwi'r bylchau a beth bynnag a ddeuai i'w meddyliau. Drwy anogaeth dyner, dyma nhw'n tynnu o'u profiadau eu hunain, ac yn raddol, dechreuodd cyfeiriadau at fferins, pêl droed, Boyzone, dwyn ceir ynghyd ag atyn nhw eu hunain, ymddangos Gofynnwyd iddynt hefyd wrando'n ofalus ar ei gilydd a gwylio'r canlyniadau ar ddiwedd pob sesiwn ar y monitor. Cyn bo hir dyma'r dull syml yma'n magu traed, a dechreuodd themâu arbennig gymryd gafael gan gael eu hailadrodd, a thynnwyd lluniau cartŵn o'r delweddau a oedd wedi ymsefydlu yn eu meddyliau. Daliai'r storïau i lifo'n fyrfyr, ac felly, hyd yn oed gyda'u hoff linellau stori, roedd yna le i dro annisgwyl yn y digwyddiadau. Dan eu harweiniad nhw, dyma ni'n cerdded ac yn gyrru drwy'r dirwedd, dros fynyddoedd, afonydd, llynnoedd a choed, gan chwilio am leoliadau eu dychmygion, nes, yn y diwedd, roedd fel pe bai plot y stori wreiddiol wedi dadelfennu'n llwch.

Drwy weithio â Charline a'i disgyblion, fe'm dysgwyr i ymwrthod â'r farn negyddol sydd i'w cael yn aml ynghylch plant anghenion arbennig..Un camsyniad rhyfeddol oedd na fyddent yn teimlo'n gyfforddus wrth ddefnyddio'u dychymyg. Aethant rhagdynt ar gyflymdra gwahanol, ond unwaith iddynt fynd i'r afael â'u storïau, byddai'u disgrifiadau llachar a throeon annisgwyl yn y plot yn disgleirio. Camsyniad arall oedd na fyddent yn gallu cydweithredu mewn parau neu grwpiau. Ond er bod yna rai diddordebau'n unigol, roedd rhai a oedd yn codi dro ar ôl tro ac yn cael eu rhannu a'u helaethu. Yn gynnar yn y broses, dechreuon nhw arwain y naill o weithgareddau'r llall, gan ymgorffori hoff ddarnau llinellau stori ei gilydd, a hynny mewn ffordd mor ddidaro nes awgrymu bod pethau a oedd unwaith yn rhan o'u dychymyg bellach yn cael eu derbyn yn ffaith.

Ac felly, ar ôl torri pen, lle y llifodd fferins yn lle gwaed i lyn llawn candi; byddai fferins hefyd yn llifo o goesau, breichiau a gyddfau a oedd wedi'u torri mewn storïau eraill. Un tro, gwyliais wrth i ddisgybl oedi cyn iddi gyflwyno enw dyn nad oeddwn wedi'i glywed o'r blaen, gan ei ddisgrifio'n ddyn creulon a chrintach a oedd yn casâu plant. Dyma'r lleill yn ymateb drwy agor eu llygaid led y pen neu stwffio eu dwylo i'w cegau i atal y cilchwerthin. Yn nes ymlaen, pan ymddangosodd y dyn am yr eildro mewn straeon eraill, roedd fel pe bai'n ddieflig, wedyn yn dlawd, wedyn yn gripl, yn hen ac, yn y diwedd, wedi marw. Weithiau, roedd fel pe bai rhyw gyfathrebu rhyngddynt, nid yn unig wrth adrodd y straeon, rhywbeth roeddwn i wedi'i amau, ond hefyd yn y berthynas rhwng y straeon eu hunain.

Ar ôl i bopeth gael ei sefydlu a'r hyder yn uchel, mi ges i ryw bwl bach o banig wrth iddynt ddechrau gwneud rhywbeth hollol annisgwyl ag ef. Erbyn hyn y mae hyn yn elfen gyfarwydd ac fe'i derbynnir fel yr hyn sy'n dod i'r fei yn fy holl gyweithiau.

Yn 'Brwydr', roeddwn wedi rhagdybio y byddai'u straeon yn cydreddeg yn fwy amlwg â'r plot, gan gynnwys mwy o realaeth a llai o ffantasi gwylt. O ystyried, yr wyf yn deall fod yr hwyl anarchaidd a gafwyd yn y gwaith yn fwy addas i'r bobl ifainc hyn. Ar ôl saethu, ac ar ôl gwylio'r tapiau'n fanylach, sylweddolais nad oeddent wedi crwydro mor bell o'r

themâu o rym, mileindra, cystadleuaeth a gorchfygiad a oedd i'w cael yn y stori wreiddiol. Ond, yn eu fersiynau nhw, roedd deinamig arferol y grym wedi'i wrthdroi mewn rhyw ffordd. Roedd yr hen dlawd a ddisgrifiwyd uchod, mewn gwirionedd, yn ffigur awdurdodol parchus yn yr ysgol a'r gymuned, ond wedyn colodd pob oedolyn, finnau yn eu plith, eu grym neu'n pennau, ar ryw adeg neu'i gilydd yn y digwyddiadau.

I rai wrth wylio'r fidio, efallai na fydd yn ymddangos yn fwy na direidi pobl ifainc 'anodd' wrth dorri'r rheolau. Ond byddai hynny'n gwadu'r holl waith caled a'r ymroddiad a gafwyd gan y disgyblion i'r prosiect. Mae hefyd yn anwybyddu'r testunau perthnasol y tu ôl i'r ffordd a ddewiswyd ganddynt i gymryd awenau'r stori a'i gwneud yn eiddo iddynt i gyd. O fewn rhyw ddeg wythnos, roeddent wedi cymryd cyfrifoldeb dros offer drud, wedi datblygu sgiliau technegol a chreadigol, ac wedi goresgyn eu diffyg hyder mewn perthynas â llefaru a pherfformio. Nid peth hawdd yw bod yn fyrfyfyr ddyfeisgar pan fydd camera'n pwyntio'n syth atat ti, mi wn - dwi wedi rhoi cynnig arni. Nid gwaith caled oedd peth felly iddyn nhw; darllen ac ysgrifennu a'r holl feysydd lle maent wedi ymdeimlo â methiant sy'n anodd ac yn waith caled iddynt. Roedd y bobl ifainc hyn wedi'u profi, eu hasesu, eu dadansoddi a'u labelu gan sawl arbenigydd. Ond pa fwradau da bynnag oedd ynghlwm â hynny, mae'r disgyblion yn gweld y rheithfarn o flaen pob dim arall - eu bod yn wahanol a'u bod rywsut yn methu. Yn y prosiect 'Brwydr', gallasant gyfleu syniadau a phrofiadau oddi mewn i strwythur diogel stori ac mewn fformat nad oeddent yn ei drwgdybio'n awtomatig. I mi, rhan hanfodol o'r broses hon yw'r ffaith eu bod wedi dewis chwarae â deinamig grym ac awdurdod.

Profodd galluoedd y bobl ifainc hyn i fod yn sylweddol. Mae cynulleidfaoedd amrywiol wedi rhannu'n frwd yr hiwmor a'r dychymyg a ddangoswyd yn y fidio rydym wedi'i wneud â'n gilydd. Y llynedd, mewn oriel yn Zagreb, bu pobl ifainc o Faes-gwyn, Pen-rhys a'r cymoedd cyfagos, yn nyddu'u storïau fidio yng nghwmni llawer iawn o artistiaid a pherfformwyr eraill yn eu plith Arthur Scargill a John Cale. Enw'r sioe hon oedd 'Cymru': *Fersiynau Anawdurdodedig*. Gobeithio bod pobl Croatia wedi cael blas arni.

## Prosiectau *Opt for Art* Cofiadwy

Swyddogion Addysg Oriol yn Hel  
Meddyliau am Eu Profiadau

### **Fiona Godfrey**

*Swyddog Addysg*

*Oriol Mostyn, 1995 - 1998*

### **Cath Sherrell**

*Swyddog Addysg*

*Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth*

### **Eleri Wyn Evans**

*Swyddog Addysg*

*Amgueddfa ac Oriol Genedlaethol Cymru*

**Ysgol John Bright, Llandudno ag Oriol Mostyn a'r artist,  
Lucy Byatt**

### **Fiona Godfrey**

Ym 1995 y digwyddodd y prosiect *Opt for Art* mwyaf cofiadwy imi- blwyddyn beilot gyntaf un yr holl brosiect. Ymwelodd disgyblion Blwyddyn 9 o Ysgol Dyffryn Conwy Llanrwst â'r oriel yn ystod arddangosfa o waith Roger Palmer. Roedd y gwaith yn dipyn o her i ddisgyblion Blwyddyn 9, gan mai arddangosfa gysyniadol ydoedd yn ymdrin â syniadau cymhleth am iaith, rhagfarn a sut y bydd ystyr yn cael ei ffurfio.

Heb y bachau gweledol neu'r wow ffactor sydd, yn aml, yn gallu gweithio i arwain disgyblion at waith celf, ar y dechrau roedd y gwaith yn peri syndod a heb gynhyrfu dim ar lawer iawn ohonynt. Y boddhad o fedru eu harwain i fwynhau'r gwaith go iawn a wnaeth hwn yn un o'r prosiectau mwyaf cofiadwy imi gymryd rhan ynddo.

Roedd y prosiect dan arweiniad Lucy Byatt, artist a oedd wedi gweithio â Roger Palmer yn Glasgow. Rhannwyd y grwpiau'n ddau a buom ein dwy'n arwain gweithdai, gan gyfeirio drwy'r adeg at y gwaith yn yr arddangosfa. Bu gwaith Lucy ar y pryd yn canolbwyntio ar ddefnyddio gwyddor mewn côd a ddyfeisiwyd drwy ollwng darnau o'i gwallt, yn debyg iawn i'r ffordd y mae rhywun yn gollwng croen afal i gael hyd i lythrennau cyntaf enw'r un y mae rhywun wedi'i dynghedu i'w priodi. Bu'n gweithio â'r disgyblion wrth iddynt ddyfeisio'u gwyddor eu hunain drwy archwilio marciau y gellid eu gwneud wrth argraffu â'u dwylo. Bu defnyddio'u gwyddorau côd yn ffordd i archwilio grym perchenogaeth a deall neu gael eich eithrio o iaith. Yn y cyfamser, wedi'u harfogi a chamerâu tafladwy, dyma fi'n mynd â grwpiau o gwmpas Llandudno'n tynnu lluniau o eiriau a chanddynt ystyr ddwbl, gan ddod o hyd i ddelweddu y gellid eu paru â'i gilydd a fyddai newid ystyr wreiddiol y gair i'w ystyr arall. Cynigiodd y gweithgarwch syml hwn ffordd i ddeall sut nad yw ystyr yn rhywbeth sefydlog, ond ei bod yn gallu llithro a newid yn ôl y cyd-destun.

Mewn ffordd agored, ehangwyd dealltwriaeth o'r hyn a all fod yn gelf gan y prosiect. Wrth deithio o gwmpas

Llandudno ag un grŵp, cafwyd trafodaeth hir a oedd yr hyn roeddem yn ei wneud yn gelfyddyd. Mentrodd un disgybl fod yr hyn roeddem yn ei barn hi, yn agosach at ddaearyddiaeth! Deilliodd straeon tebyg o waith Lucy. Gwnaeth un disgybl reit ddeallus, a ymgollodd yn llwyr wrth weithio â'i iaith gôd, y sylw nad oedd erioed wedi ystyried iddo fod yn dda mewn Celf o'r blaen. Helpodd y prosiect iddo sylweddoli fod yna lawer iawn o sgiliau heblaw am ddrafftmoniaeth y gellir eu defnyddio wrth greu gwaith celf a bod celf yn gofyn am ymgymryd yn ddeallusol yn ogystal ag ymarferol.

Cyn y prosiect, roedd Lucy wedi danfon at bob un disgybl lythyren wedi'i henwi'n unigol ac wedi'i hysgrifennu mewn côd, a roddodd iddynt gyflwyniad diddorol i'r prosiect a oedd, mewn rhai achosion, wedi peri cryn benbleth. Roedd hyn wedi gosod cywair i'r prosiect a barhaodd ar ei hyd. Dangoswyd bod wynebu rhywbeth sy'n peri penbleth neu sy'n anodd, yn gallu agor drysau i greadigrwydd, ac o gael y math cywir o fachyn, bydd dealltwriaeth lawer iawn mwy soffistigedig nag y tybiem o fewn cyrraedd galluoedd pobl ifainc.

### Datguddiad

*Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth ac Ysgol Penglais gyda'r artistiaid Catrin Webster a Becky Knight Dan arweiniad yr athrawesau celf, Ann Williams a Cas Smith*

### Cath Sherrell

Cynhaliwyd y prosiect ym 1998, gan ganolbwyntio ar yr arddangosfa *Datguddiad - Artistiaid Tecstilau'n ymdrin â Materion Llosg*. Arddangosfa am syniadau oedd *Datguddiad*, arddangosfa gelfyddyd gain lle y defnyddid tecstilau fel ffordd o fynegi rhagor na fel gwrthrychau crefft. Daeth materion megis rhywedd, hunaniaeth a'r amgylchedd i'r fei yn aml, gan ysgogi llawer iawn o drafodaeth ymhlith y myfyrwyr. Adlewyrchwyd hyn yn ddiweddarach gan y gwaith a gynhyrchwyd yn y sesiynau ymarferol.

Bu'r prosiect yn sôn yn bennaf am broses rhagor na



*Ysgol: Penglais Oriol: Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth Artist: Becky Knight Blwyddyn: 1997-8 ffoto: Cath Sherrell*

chynnyrch gorffenedig. Roedd sesiynau'r oriel yn hanfodol, ac yn aml, byddent yn parhau hyd at ddwy awr. Yn ystod yr amser hwn, bu'r myfyrwyr yn astudio'r gwaith gan sgwrsio am y syniadau a'r materion a godwyd a byddent yn ceisio gweld beth oedd yr artist yn ceisio'i gyfleu. Byddent yn trafod pam bod yr artist wedi dewis defnyddio deunyddiau a thechnegau penodol er mwyn mynegi'u syniadau, a'r ffaith nad oes a wnelo darn o gelf gyfoes yn aml â mwy nag a welir ar yr olwg gyntaf. Yn eu taflenni gwerthuso, cafwyd y sylwadau canlynol gan rai o'r myfyrwyr.

'Erbyn hyn dwi'n deall nad llun bach hardd mo gelf yn unig, ond yn ffordd o ddangos teimladau ac emosiynau cryfion ayyb.'

'Mae wedi rhoi hwb imi gymryd mwy o ddi-ddordeb mewn celf, a dwi wedi dysgu nad yw sothach yn sothach yn' unig - mae'n greadigol a bydd artistiaid yn rhoi'u cyfan i'w celfyddyd.'

'Parodd y rhan fwyaf o'r gwaith i ni feddwl, oherwydd drwy edrych arno'n unig, ni fyddwch yn gweld dim byd, ond pan fyddwch yn edrych arno am sbel, mae pethau'n dechrau gafael ynddoch chi a byddwch yn cael gweld dealltwriaeth ohono.'

Tipyn o gamp oedd cael y disgyblion i dreulio dwy awr yn yr oriel dim ond yn trafod y gwaith, ac mae'n dangos cymhwysedd y ddwy a fu'n arwain y gweithdy. Dangosodd y prosiect y gellir cael grŵp o fechgyn 14 oed i eistedd mewn oriel yn trafod yn agored faterion megis rhywedd, yr amgylchedd â pherthynas. Bu hefyd yn destun i'm hoff ffotograff addysg, sy'n dangos criw o fechgyn 14 oed yn eistedd yn dawel bach o dan gyfres o ffotograffau o fronnau mawrion!

Ar gyfer y sesiynau ymarferol, gofynnwyd i'r disgyblion ddewis testun maent yn teimlo'n gryf yn ei gylch, a defnyddio deunyddiau addas i fynegi'r teimladau hynny. Daeth rhai â gwrthrychau megis lluniau, gwallt ayyb roeddent wedi'u casglu gartref i'w defnyddio, tra oedd eraill yn defnyddio'r deunyddiau a oedd ar gael yng nghanolfan y celfyddydau. I lawer un dyma'r tro cyntaf iddynt gael eu gofyn i weithio fel hyn. Mae'n ddiddorol yn y taflenni gwerthuso, roedd llawer iawn o'r disgyblion wedi cysylltu celf â thynnu lluniau a pheintio'n unig. Ar ôl gweithio ar y prosiect, roedd llawer iawn ohonynt bellach yn gallu edrych ar gelf a'i phosibiliadau mewn cyd-destun ehangach:

'Roedden nhw'n defnyddio stwff fel gwallt go iawn, llechi a phethe wedi'u peintio fel y Simpsons a oedd yn well na hen beintiadau diflas.'

Yn y pen draw, bydd y prosiect wedi llwyddo os, yn ogystal ag annog rhai disgyblion i "*Opt for Art*", bydd wedi rhoi i fyfyrwyr eraill ffordd newydd o edrych ar gelfyddyd weledol ac o'i gwerthfawrogi.

Dyma'r tro cyntaf hefyd i ni gynnal arddangosfa arbennig yn cynnwys gwaith a gynhyrchwyd o'r prosiect *Opt for Art*. Parhaodd yr arddangosfa am bum wythnos yn Oriol y Cyntedd fel rhan o'n rhaglen arddangos arferol. Ysgogodd lawer iawn o drafodaeth a sylwadau positif.

Pan ofynnwyd yn ddiweddar i ddisgyblion am eu hatgofion am y prosiect *Opt for Art*, dyma rai o'u sylwadau:

'*Opt for Art?* WOW! Mae'r gwaith a wnaethon ni'n dal i f'ysbrydoli bedair blynedd yn ddiweddarach. Diolch o galon.'

'Roedd *Opt for Art* yn andros o hwyl - yn llawn gwybodaeth ac yn ysbrydoledig.'

'Fe wnaeth ansawdd y prosiect anhygoel yma fy nghodi y tu hwnt i ysbrydoliaeth... hollol dandi...'

### **Creu Cwilt Treftadaeth**

*Amgueddfa ac Oriol Genedlaethol Caerdydd gydag Ysgol Uwchradd Llanedern a'r artist, Linda Nottingham*

### **Eleri Wyn Evans**

Ym mis Mehefin 2000, blwyddyn olaf *Opt for Art*, bu 185 o ddisgyblion o Ysgol Uwchradd Llanedern yn ymweld ag Amgueddfa Werin, Sain Ffagan, er mwyn cymryd rhan mewn prosiect *Opt for Art*. Buont yn edrych ar y casgliad gan dynnu lluniau ohono. Treuliwyd amser â'r gwehyddwyr yn y ffatri wlân, gan ddysgu am ddulliau traddodiadol o wehyddu defnydd gwllân.

Yr wythnos ganlynol, bu'r disgyblion yn gweithio â'r artist tecstilau, Linda Nottingham. Mae Linda ei hun wedi tynnu llawer iawn o'i hysbrydoliaeth o'r casgliad yn yr Amgueddfa Werin. Roedd hi am i'r disgyblion edrych ar y crefftau a'r dulliau gwaith traddodiadol ac yna i gynhyrchu'u gwaith eu hunain.

Bwriad Linda oedd y dylai diwylliant traddodiadol Cymreig ymdoddi â diwylliant ieuencid yr 21ain ganrif. Mae delweddau sy'n bwysig i bobl ifainc wedi'u maglu o fewn i haenau o weoedd gwllân Cymreig. Roedd hyn yn caniatáu i rai mannau fod yn hollol weladwy tra arhosai mannau eraill ynghudd i'w darganfod yn y canrifoedd i ddod. Cynrychiolwyd crefft cwiltio gwerin bobl Cymru, symbolaeth y llwyau caru a'r crefftau o nyddu ac adeiladu ond wedi'u gweithio mewn ffordd arloesol. Y canlyniad oedd cwilt clytwaith 7 troedfedd sgwâr wedi'i greu o 185 o sgwariau unigol.

Bu'r prosiect yn arbennig o lwyddiannus oherwydd:

- i'r bechgyn a'r merched i gyd ymgolli i'r un graddau yn y prosiect, er, ar y dechrau, cafwyd sylwadau bod gweithio â thecstilau'n rhywbeth i ferched'.



Ysgol: Uwchradd Llanedern Oriol: Amgueddfa ac Oriol Genedlaethol Caerdydd  
 Artist: Linda Nottingham Blwyddyn: 1999-2000 ffoto: © Amgueddfa ac Oriol  
 Genedlaethol Caerdydd

- i ddisgyblion o bob gallu fedru cymryd rhan a daeth cyfraniad pawb yn rhan bwysig o'r gwaith gorffenedig,
- i'r cynnyrch terfynol gael ei orffen at safon uchel a'r gobaith yw y bydd yn cael ei arddangos yn yr ysgol am flynyddoedd maith i ddod. Roedd yn adlewyrchu diwylliant ieuencid ar ddechrau'r ganrif newydd gan roi cipolwg i ni ar ennyd arbennig mewn amser.

O ran gweithio â disgyblion Cyfnod Allweddol Tri, dysgasom am bwysigrwydd sicrhau cyfraniad gan bob plentyn yn y grŵp blwyddyn. Ar gyfer prosiectau lle nad yw hyn yn amod, yn aml, byddwn yn cael bod rhai disgyblion a hyd yn oed dosbarthiadau cyfain yn cael eu cau allan rhag cymryd rhan..

Hefyd, dysgasom i beidio â gadael i ddigwyddiad negyddol unigol amharu ar y prosiect i bawb arall. Fe wnaeth un disgybl adael ei farc ar wal yr oriel - ar ffurf nifer o luniau rhyfedd braidd!

Pe baem yn rhedeg prosiect tebyg eto, byddai pawb ohonom, yn addysgwyr oriel, athrawon ac artistiaid, yn awyddus iawn i sicrhau bod y disgyblion yn ymwneud mewn ffordd lawer iawn yn fwy cynhwysfawr wrth gynllunio'r prosiect.

## Y Sioe Flodau

Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth gydag Ysgol Gyfun Pantycelyn a'r artistiaid, Catrin Webster, Alice Betts, Helen Kozich ac Elizabeth Brickell

### Cath Sherrell

Yn ystod y flwyddyn 1999-2000, blwyddyn olaf prosiect *Opt for Art*, bu saith deg o ddisgyblion yn ymweld â Chanolfan y Celfyddydau dros gyfnod o ddeuddydd i weld yr arddangosfa, *Y Sioe Flodau* a guradwyd gan Oriol y Farchnad Ffrwythau yng Nghaeredin. Daeth yr arddangosfa â grŵp o dri ar ddeg o artistiaid rhyngwladol at ei gilydd, pob un ohonynt yn ymwneud â darlunio neu ddefnyddio blodau yn eu hymarfer. Cynhwyswyd artistiaid ychwanegol o Gymru ar gyfer y sioe yn Aberystwyth. Gan ddefnyddio blodau ffres, micro-amgylcheddau, peintio, cerfluniau, darnau gosod a thafuniadau fidio, dangosodd gwaith yr artistiaid berthnasedd parhaus blodau fel cyfrwng a thestun ar gyfer celf gyfoes.

Bu'r ysgol yn paratoi'n helaeth cyn y sesiynau oriel, a gyfrannodd yn fawr at ymwneud y disgyblion yn y prosiect. Gwahoddwyd iddynt ddod â blodau i'r ysgol i gyfeillion â negesau arnynt. Arddangoswyd y rhain a'u darllen yn y cynulliadau er mwyn cyflwyno rhai o'r cysyniadau y tu ôl i'r arddangosfa. Dangoswyd y blodau hefyd fel y gallai'r disgyblion, yn ystod yr awr ginio ac adegau toriad, ddarllen y cardiau i weld a oeddent wedi derbyn neges. Bu'r disgyblion yn gwyllo wrth i'r arddangosfa flodau dyfu i greu 'darn gosod'. Bu hyn yn eu paratoi ar gyfer rhai o'r syniadau a'r math o waith y byddent yn ei weld yn yr arddangosfa.

Fel swyddog addysg oriel, bu'n ysbrydoliaeth arbennig imi fod yr ysgol wedi gwneud cymaint o waith paratoi, a bod ymweliadau'r oriel yn rhan o brosiect mwy a oedd ar y gweill. Cymerodd Elin Jones, yr athrawes gelf, lawer o'r cyfrifoldeb am ochr greadigol y prosiect, ac mae'n amlwg bod ganddi berthynas dda â'r ysgol a'r disgyblion. Hyfrydwch pur oedd gweithio â hi, bydd ei chyfraniad yn gymorth wrth sicrhau y bydd y prosiect yn cael effaith barhaol ar y disgyblion a gymerodd ran.

Bu'r ysgol yn ymweld â'r oriel dros ddau ddiwrnod gan weithio â dau artist ar bob achlysur. Treuliyd llawer

iawn o amser yn yr oriel gan drafod y syniadau a'r cysyniadau y tu ôl i'r gwaith yn ogystal â gwneud lluniau..

'Mae'r *Sioe Flodau*'n archwilio is-destun metafforaidd dwys ein perthynas fel pobl â blodau.'  
Dyfyniad o Gatalog yr Arddangosfa.

Gan gymryd y dyfyniad yn fan cychwyn, anogwyd y disgyblion i archwilio sut a pham y buom yn defnyddio blodau yn ein cymdeithas, er enghraifft er mwyn dangos hoffter, wrth alaru ac i ddweud "Sori" neu "diolch yn fawr", wrth iachau neu i addurno dan do. Anogwyd y disgyblion i ddweud eu barn am y gwaith. Ar ôl y gwaith yn yr oriel, treuliodd gweddill y diwrnod ar ryw weithgarwch ymarferol. Cynhaliwyd gweithdy gwneud printiau gan Helen Kozich tra bu disgyblion yn gweithio â Cattrin Webster yn gwneud blodau-papur-sidan â negeseuon ynghlwm a gafodd eu hychwanegu at ddarn gosod parhaus yn adnoddfa'r oriel. Bu Alice Betts yn arwain gweithdy gwydr lle y cafodd blodau wedi'u gwasgu'u gosod rhwng dau ddarn o wydr.

Parhaodd gwaith yn yr ysgol ar ôl yr ymweliad â'r oriel. Cymerwyd y disgyblion allan o'u hamserlenni arferol gan dreulio pedwar diwrnod yn gweithio â'r artist Elizabeth Brickell ar ddarn gosod wedi'i seilio ar ddelweddaeth blodau. Anogwyd y disgyblion i bortreadu gwahanol negeseuon drwy'u gwaith blodau, gan gynllunio a chreu'u blodyn eu hunain o weiren fân a mod-roc, papier maché neu bapur sidan. Rhoddwyd geiriau a negeseuon ar arwynebau'r dail a'r petalau. Yn olaf, gosodwyd y blodau i gyd ar grid metel i greu teyrnged i'r profiad blodeuol celfyddydol. Arddangoswyd y gwaith gorffenedig yn yr ysgol ac mae o dal i'w weld. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, mae cof byw gan y disgyblion o hyd o'u profiadau. O'u gofyn yn ddiweddar a oeddent yn cofio'r prosiect, sylw'r disgyblion oedd:

'Roedd hi'n braf gallu gweld sut roedd hi i wneud cerflun, a rhoddodd y daith i'r oriel syniadau i ni. Parodd imi ddewis Celf hyd yn oed yn fwy oherwydd imi gael gweld mwy amdano.'

'Doeddwn i ddim yn mwynhau'r prosiect ryw lawer oherwydd roedd yn eitha diflas, ond mi fwynheais fy nhaith i Ganolfan y Celfyddydau, Aberystwyth..'

'Ro'n i'n meddwl bod y prosiect blodau'n wirioneddol dda. Roedd arddangosfa'r blodau'n dda gyda'r blodau a oedd yn siarad. Mi ges i'r hwyl ryfedda wrth wneud fy mlode fy hun - blodyn galar oedd fy mlodyn i.'

Ers hynny mae'r ysgol wedi ymweld ag Aberystwyth i gymryd rhan mewn Cynhadledd Gyrfaoedd Celfyddydau a drefnwyd gennym. Er gwaetha'r ffaith ei bod yn cymryd awr a hanner i yrru yma, golyga hyn deithio am dair awr ar gyfer pob ymweliad. Roeddwn i'n amau a fyddai'r ysgol wedi mynd i'r fath ymdrech cyn eu prosiect *Opt for Art*. Mae meithrin perthynas dda â'r ysgol a'r athrawon cyn i'r prosiect ddechrau'n sicrhau bod pawb yn teimlo eu bod yn cymryd rhan ac yn gwir gyfrannu at lwyddiant y prosiect dan sylw.

Galla i gofio pryd y buom wrthi'n cynllunio ein prosiectau pilot *Opt for Art* cyntaf, ac roedd pawb yn poeni am sut y byddem yn llwyddo i weithio â'r oedran anodd yma. Mi fedra i gofio un o'r athrawon yn dweud wrthyf, 'Pam eich bod yn ei g'neud hi? Maen nhw'n uffern i weithio â nhw yn yr oedran 'na! Cafodd ei drafod hyd yn oed ar y diwrnod hyfforddi. Gan amlaf, delweddu o luoedd o blant 14 oed yn creu hafog yn yr oriel!

Efallai i ni fod yn lwcus, ond yn y saith prosiect y buom yn ymwneud â nhw yn Aberystwyth, nid yw hyn erioed wedi digwydd. Efallai fod y dalgylch gwledig yn gwneud gwahaniaeth gan fod yr ysgolion yn aml yn llai a heb rai o'r problemau sy'n gysylltiedig â'r ardaloedd yng nghanol y dinasoedd. Fodd bynnag, dwi'n meddwl bod pobl yn dychmygu i'r anawsterau o weithio â'r oedran yma fod yn waeth nag y maent.

Serch hynny, o'm profiad i, mi fyddwn yn awgrymu rhai rhagofalon call! Lle bynnag bo modd, buom yn ceisio defnyddio artistiaid a chanddynt profiad o weithio â phobl ifainc. Mae'n werth bod yn realistig gan gydnabod bod rhai pobl yn well o lawer wrth weithio â'r oedran yma nag eraill. Ni ddisgwyliem erioed i artist weithio â mwy na 25 o blant ar y tro. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd y grwpiau'n llai o lawer. Buom bob amser yn mynnu fod athro/rawes yn dod â phob grŵp. Pe bai 40 o fyfyrwyr yn dod ac yn cael eu rhannu'n ddau grŵp, byddem yn disgwyl i ddau athro/rawes fynychu gan aros â'r grŵp. Roedd yr athrawon hefyd yn gyfrifol am ddisgyblion yn ystod yr awr ginio a thoriadau eraill.

## Ffeithiau a Ffigurau

Bu *Opt for Art* ar fynd am gyfanswm o bum mlynedd o fis Medi 1995 - Gorffennaf 2000

Dechreuwyd ac arweiniwyd y prosiect gan yr Ymgynghorydd Addysg Gelf Nigel Meager, gan weithio'n agos ag **engage** i siapio'r prosiect a sicrhau cyllid.

Cyllidwyd y ddwy flynedd beilot drwy Gyngor Celfyddydau Cymru, Sefydliad Paul Hamlyn, Sefydliad Calouste Gulbenkian a'r Sefydliad ar gyfer Chwaraeon a'r Celfyddydau.

Derbyniwyd cyllid yn ystod tair blynedd olynol y prosiect drwy grant loteri o £217,000 gan gynllun 'Celfyddydau i Bawb' Cyngor Celfyddydau Cymru

Cyfanswm costau'r prosiect dros y tair blynedd greiddiol a dderbyniodd gyllid gan y loteri oedd £291,800.

Cafwyd 8 prosiect yn ystod y flwyddyn beilot gyntaf (1995 - 6)

Cafwyd 10 prosiect yn ystod yr ail flwyddyn beilot (1996-7)

Cafwyd 30 o brosiectau yn ystod blwyddyn tri (1997-8)

Cafwyd 28 o brosiectau yn ystod blwyddyn pedwar (1998-9)

Cafwyd 30 o brosiectau yn ystod blwyddyn pump (1999-2000)

Dros dair blynedd y prosiect a dderbyniodd gyllid gan y loteri, bu o leiaf 12,786 o bobl yn cymryd rhan, gan gynnwys:

- 12,668 o ddisgyblion
- 88 o athrawon

Dros bum mlynedd y prosiect bu bron i 90 o wahanol artistiaid yn ymwneud ag ef.

Amrywia'r grantiau o £1,000 i £2,500.

Bu dros 200 yn y rhan fwyaf o grwpiau a gymerodd ran. Y mwyaf oedd 399.

## Artistiaid

Diolch yn fawr... i'r  
artistiaid lu a fu'n  
ymwneud â rhedeg  
prosiectau *Opt for Art*  
(ac ymddiheuriadau i  
unrhyw un rydym wedi'u  
gadael oddi ar y rhestr  
drwy amryfusedd)

Jane Actfield  
Keith Bayliss  
Tom Belton  
Alice Betts  
Geoff Bradford  
Sarah Bradford  
Michael Brennan Wood  
Elisabeth Brickell  
William Brown  
Charles Burton  
Lucy Byatt  
Phil Cope  
David Cox  
Phillip Cox  
Janice Coyle  
Dave Daggars  
Neil Dalrymple  
Gareth Davies  
Lindsey Derbyshire  
Ian Douglas  
Alistair Duncan  
Tony Goble  
Morgan Hall  
David Hann  
Philip Hardaker  
Sean Harris  
Maria Hayes  
Rachel Higgins  
Catrin Howell  
Darren Hughes  
Louise Hughes  
Sue Hunt  
Robert Jakes  
Maggie James  
Angharad Jones  
Catrin Jones  
Christen Jones  
Esyllt Jones  
Megan Jones  
Mick Kelly  
Rob Kennedy  
Becky Knight  
Helen Kozich  
John Paul Landreau

Fred Langford Edwards  
Mary Lloyd Jones  
David Machkie  
Peter Margerum  
Caroline Maudsley  
Paul Mc Callister  
Adrian Metcalf  
Susan Milne  
Amanda Morgan  
Denise Morgan  
Terry Morgan  
Ian Murphy  
Linda Nottingham  
Maxine O'Reilly  
Richard Page  
Stephen Page  
Heather Parnell  
Helen Parrott  
Alan Perry  
Toby Peterson  
Melanie Philips  
Richard Pope  
Tim Pugh  
Kas Rix  
Alan Rogers  
Sarah Romana  
Mark Saunders  
Bridget Seaton  
Anthony Shapland  
Louise Shenstone  
Helen Shepherd  
Aly Simkins  
Jess Stephens  
Meg Stevens  
Nigel Talbot  
Francis Taylor  
Tessa Waite  
Catrin Webster  
Ian Westacott  
Catrin Williams  
Sue Williams  
Maria Wilson  
Pete Worrall

# Orielau a Chyrff y Celfyddydau

Rhestr Gysylltiadau

**Canolfan y Celfyddydau,  
Aberystwyth**  
Penglais  
Aberystwyth  
SY23 3DE  
Ff: 01970 622888  
**Cyswllt** Cath Sherrell  
cxs@aber.ac.uk

**Artistiaid Tre Bute**  
54B/C Heol Bute  
Caerdydd  
CF10 6AF  
Ff: 07970 585830  
**Cyswllt** Maggie James  
butetown@artists.fsnet.co.uk

**Ymddiriedolaeth Gelf Bae Caerdydd**  
123 Heol Bute  
Caerdydd  
CF10 5AE  
Ff: 02920 488772  
**Cyswllt** Carole-Anne Davies  
info@cbat.co.uk

**Canolfan y Celfyddydau Gweledol**  
bellach wedi cau

**Canolfan Celfyddydau Chapter**  
Heol y Farchnad  
Caerdydd  
CF5 1QE  
Ff: 02920 311050  
**Cyswllt** Hannah Firth  
enquiry@chapter.org

**Cywaith Cymru**  
Dolbebyll  
Liangadfan  
Y Trallwng  
Powys  
SY21 0PU  
Ff: 01938 820147 / 029 2048 9543  
**Cyswllt** Stephen West  
stephen.west@cywaithcymru.org

**Ffotogallery**  
D/o Canolfan Celfyddydau Chapter  
Heol y Farchnad  
Caerdydd  
CF5 1QE  
Ff: 029 2066 8695  
**Cyswllt** Lisa Edgar  
ffotoeducation@ukonline.co.uk

**Oriel Gelf Glynn Vivian**  
Ffordd Alecsandra  
Abertawe  
SA1 5DZ  
Ff: 01792 655006 / 651738  
**Cyswllt** John Upton  
glynn.vivian.gallery@swansea.gov.uk

**Canolfan y Celfyddydau Abaty Nant  
Teyrnnon**  
Ffordd Ddewi Sant  
Cwmbrân  
NP44 1PD  
Ff: 01633 483321  
**Cyswllt** Charlotte Kingston  
art@llantarnamgrange.fsnet.co.uk

**Oriel y Genhadaeth**  
Gloucester Place  
Yr Ardal Forwrol  
Abertawe  
SA1 1TY  
Ff: 01792 652016  
**Cyswilt** Amanda Roderick

**Oriel Gelf ac Amgueddfa  
Casnewydd**  
Maes John Frost  
Casnewydd  
NP9 1PA  
Ff: 01633 840064  
**Cyswilt** Annette Wells  
annette.wells@newport.gov.uk

**Oriel Mostyn**  
12 Vaughan Street  
Llandudno  
LL31 1AB  
Ff: 01492 879201  
**Cyswilt** Gwenno Jones  
gwenno@mostyn.org

**Oriel Myrddin**  
Lôn y Llan  
Caerfyrddin  
SA31 1LH  
Ff: 01267 222775  
**Cyswilt** Rolande Thomas  
rjthomas@camarthenshire.gov.uk

**Oriel 31**  
Y Parc  
Y Drenewydd  
SY16 2NZ  
Ff: 01686 625041  
**Cyswilt** Amanda Farr  
Amanda@oriel31.org

**Amgueddfa ac Oriel  
Genedlaethol Cymru**  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF1 3NP  
Ff: 029 2057 3312  
**Cyswilt** Eleri Wyn Evans  
Eleri.Evans@nmgw.ac.uk

**Canolfan Grefft Rhuthun**  
Ffordd y Parc  
Rhuthun  
Sir Ddinbych  
LL15 1BB  
Ff: 01824 704774  
**Cyswilt** Jane Gerrard  
Thegallery@rccentre.co.uk

**Canolfan y Celfyddydau, Sain  
Dunwyd**  
Castell Sain Dunwyd  
Llanilltyd Fawr  
Bro Morgannwg  
CF61 1WF  
Ff: 01446 799099  
**Cyswilt** David Ambrose  
davidambrose@stdonats.com

**Llyfrgell a Chanolfan Gelf  
Wreccsam**  
Ffordd Rhosddu  
Wreccsam  
LL11 1AU  
Ff: 01978 292093 /  
01978 292611  
**Cyswilt** Dawn Parry  
dawn.parry@wrexham.gov.uk

**Canolfan Ucheldre**  
Millbank  
Caerdydd  
Ynys Môn  
LL65 1TE  
Ff: 01407 763361  
**Cyswilt** Mike Gould

# Noddwyr Cyllidol & Aelodau'r Pwyllgor Llywio

## Noddwyr Cyllidol

**Cyngor Celfyddydau Cymru**  
Stryd yr Amgueddfa  
Caerdydd  
CF1 3NX  
Ff: 02920 376500

**Sefydliad Calouste Gulbenkian**  
98 Portland Place  
Llundain  
W1N 4ET  
Ff: 0207 636 5313

**YGBC :Yr Asiantaeth Adfywio a  
Chelfyddydau**  
Blwch Post 20  
Lerpwl  
L13 1HB  
Ff:0151 259 5505

**Sefydliad Paul Hamlyn**  
18 Queen Anne's Gate  
Llundain  
SW1H 9AA  
Ff: 0207 227 3500  
Information@phf.org.uk

## Aelodau'r Pwyllgor Llywio

**Cadeirydd - Peter Evans**  
Pennaeth  
Ysgol Uwchradd Cei Connah  
Sir y Fflint  
Gogledd Cymru

**Is-gadeirydd - Peter Carter**  
Uwch Ddarlithydd  
Ysgol Addysg  
Prifysgol Cymru Caerdydd

**Julie Ashfield**  
Ymgynghorydd Celf  
AALI Caerdydd

**Fiona Godfrey**  
Ymgynghorydd Addysg  
Gelfyddydau Llawrydd

**Cath Sherrell**  
Swyddog Addysg  
Canolfan y Celfyddydau,  
Aberystwyth

**John Upton**  
Swyddog Addysg  
Oriol Glynn Vivien, Abertawe

**Annette Wells**  
Swyddog Addysg  
Amgueddfa ac Oriol Gelf  
Casnewydd

## Manylion y Cyfranwyr

Bu **Peter Carter** yn aelod o Grŵp Llywio *Opt for Art* o'r cychwyn cyntaf ac, ar hyn o bryd, ef yw'r Is-gadeirydd. Mae hefyd yn uwch ddarlithydd yn Ysgol Addysg, AAPC Caerdydd, ac yn Arweinydd Llwybrau Celf a Dylunio ar gwrs M.A. (Addysg).

Bu **Fiona Godfrey** yn rheoli blwyddyn olaf *Opt for Art* fel Cyfarwyddydd Addysg yng Nghanolfan y Celfyddydau Gweledol, Caerdydd. Cyn hynny, roedd yn Swyddog Addysg yn Oriel Mostyn. Bu'n ymwneud â rhedeg chwech o brosiectau *Opt for Art*. Erbyn hyn, mae hi'n byw ac yn gweithio yn Swydd Amwythig yn Ymgynghorydd Addysg y Celfyddydau. Mae hi ar fwrdd **engage** yn Gadeirydd grŵp datblygu **engage**cymru, ac yn ymddiriedolwraig yn Oriel 31 yn y Drenuwydd.

Astudiodd **Cath Sherrell** Gerameg a Ffotograffiaeth yn Ysgol Gelf Camberwell gan dreulio deng mlynedd yn gweithio ar wahanol brosiectau leuencid a Chymuned yn Llundain, cyn mynd yn Swyddog Addysg i'r Celfyddydau Gweledol yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth yn 1992. Bu'n gyfrifol am raglen addysg helaeth. Bu'n ymwneud â rhedeg saith o brosiectau *Opt for Art*, ac mae hi ar Bwyllgor Llywio O4A yn ogystal â grŵp datblygu **engage**cymru a ffurfiwyd yn ddiweddar.

Artist clyweled yw **Maria Wilson** o Gaerdydd sy'n defnyddio delwedd a naratif mewn ffyrdd amrywiol yn ei gwaith. Bydd yn canolbwyntio'n bennaf ar gyweithiau sy'n defnyddio fideo. Yn y gorffennol bu'n cyweithio â phlant ac oedolion ag anghenion arbennig, hen bobl, mamau 'dan wyliadwriaeth', artistiaid eraill a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Swyddog Addysg Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol Caerdydd yw **Eleri Wyn Evans**. Cyn ei swydd yn yr Amgueddfa, bu'n Bennaeth Celf mewn ysgol uwchradd ddwyieithog yn ne Cymru. Yn ei swydd bresennol, bydd hi'n gweithio â llawer iawn o grwpiau addysg ffurfiol yn ogystal â wynebu'r her o wneud i'r casgliad fod yn hygyrch i gynulleidfa gynyddol amrywiol. Bu'n ymwneud â rhedeg saith o brosiectau **engage**.

## Contributors' Details

**Peter Carter** has been a member of the *Opt for Art* Steering Group since it was first formed and at present is Vice-Chair. He is also a Senior Lecturer at the Cardiff School of Education, UWIC and is the Art and Design Pathway Leader on the MA [Education] course.

**Fiona Godfrey** managed the final year of *Opt for Art* as Education Director at the Centre for Visual Arts in Cardiff. Prior to this she was Education Officer at Oriel Mostyn. She was involved in running six *Opt for Art* projects. She now lives and works in Shropshire as an Arts Education Consultant. She is on the board of **engage**, is Chair of the **engage**cymru development group, and is a trustee at Oriel 31 in Newtown.

**Cath Sherrell** studied Ceramics and Photography at Camberwell School of Art, and spent ten years working on various Youth and Community Arts projects in London, before taking up the post of Education Officer for the Visual Arts at Aberystwyth Arts Centre in 1992. She is responsible for an extensive education programme. She was involved in running seven *Opt for Art* projects, and is on the O4A Steering Group as well as the recently formed **engage**cymru development group.

**Maria Wilson** is an audio-visual artist based in Cardiff who works in a variety of ways using image and narrative, predominantly focusing on collaborative works using video. Previous collaborators have included special needs children and adults, senior citizens, "observed" mothers, other artists and the general public.

**Eleri Wyn Evans** is the Art Education Officer at the National Museum & Gallery, Cardiff. Prior to her post at NMG she was head of the art department at a bilingual Secondary school in South Wales. Her present position at NMG involves working with many formal educational groups as well as facing the challenge of helping to make the collections accessible to an increasingly wider range of audiences. She was involved in running seven *Opt for Art* projects.

## Funders & Members of Steering Group

### Funders

**Arts Council of Wales**

Museum Place  
Cardiff  
